YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MEDI, 1896. [RHIF 105

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

MRS. A. G. JONES, BRONIESTYN, ABERDAR.

[TRWY garedigrwydd Golygydd *Papyr Pawb*, yr ydym yn cyflwyno i'n darllenwyr ddarlun o Mrs. R. J. Jones, Broniestyn, Aberdar, a chofnodiad byr o'i gwaith. Yr ydym yn ystyried mai priodol iawn yw i'r rhai'n gael ymddangos yn yr YMOFYNYDD—cyhoeddiad y mae Mrs. Jones wedi gwneyd ei goreu i'w helpu yn mhob modd er's blynyddau. Mae y ffaith i aelodau Bwrdd Llywodraethol Ysgol Ganolraddol Aberdar ethol Mrs. Jones, yr unig foneddiges, yn aelod o'r Bwrdd hwnw, yn *compliment* uchel nid yn unig i Mrs. Jones ei hunan, ond hefyd i'r enwad a wasanaethir ganddi mor deilwng. Yr ydym yn sicr y cyduna ein holl ddarllenwyr â ni i longyfarch Mrs. Jones ar ei phennodiad.—GOL.]

ANNE Griffith Jones, yr hon sydd newydd ei hethol fel aelod o Gorff Llywodraethol Ysgol Ganolraddol Aberdar, yw gwraig y Parch. Rees Jenkin Jones, gweinidog yr Hen-Dy-Cwrdd, a Phrif Athraw y Trecynon Seminary am yn agos i 30 mlynedd, lle y bu hi ei hunan yn yr ysgol am rai blynyddau, ac yn ddiweddarach, am ryw ddeng mlynedd, yn athraw cynnorthwyol. Ganwyd hi yn 1852, ac y mae ganddi bedwar o blant, tair merch ac un bachgen. Merch ydyw i Mr. a Mrs. Evan Griffiths, The Poplars, Aberdar, ac felly yn nith i'r Griffithiaid sydd wedi gwneuthur cymmaint dros Fethodistiaeth yn y Cwm. Yr oedd enw ei thadcu, Evan Griffiths, y Ty Mawr, yn ddiarebair unwaith yn yr ardal; tra mai ei hewythr, Daniel Griffiths, yn adnabyddus heddyw fel un o oreuon Cymru fel arweinydd canu cynnulleidfaol. Ewythr i'w mamgu, o'r Ty Mawr, oedd yr unwaith enwog Ddr. Jenkin Lewis, o Wrecsam. Y mae Mrs. Jones wedi cael addysg dda, wedi darllen llawer o Ladin, yn gallu siarad y Ffrancaeg, ac yn medru ysgrifenu yn dra llithrig yn

y Gymraeg a'r Saesneg. Nid llawer o ddefnydd y mae wedi wneuthur o'r wasg. Cyhoeddodd bapyr ar Gyflafareddiad rhwng Teyrnasoedd yn 1873. Ei hoff bynciau yn ddiweddar ydynt wedi bod yn dal cyssylltiad â hawliau menywod. Mae yn aelod o Gymdeithas Ryddfrydol a Chymdeithas Ddirwestol y Menywod yn Aberdar, ac wedi darllen lluaws o bapyrau o flaen y cymdeithasau hyny, o'r cyfryw y mae amryw wedi eu hargraffu yn *Nharian y Gweithiwr*. Mae hefyd yn aelod o Bwyllgor Ymweliadol (*Visiting Committee*) y Tlotty yn Merthyr. Y dydd o'r blaen, aeth fel un o gynnrychiolwyr adran Aberdar i gyfarfod mawr y menywod yn Newtown, ac yr oedd wedi ei phennodi i ddarllen papyr yno ar "Armenia." Methodd ddarllen y papyr o herwydd afiechyd, ond fe'i cyhoeddwyd yn rhifyn Mehefin o'r *Stepping Stone*. Mae yn aelod aiddgar o'r eglwys lle mae ei gwr yn gweinidogaethu, ac fel gwraig gweinidog, y mae wedi dangos ei hunan yn barod bob amser i gymmeryd rhan flaenllaw gyda gwaith yr eglwys. Chwareuodd yr *harmonium* yno am flynyddoedd pan yn ieuanc; ac fel athrawes yn yr Ysgol Sul, mae yn parhau yn hynod boblogaidd. Gall anerch cynnulleifa gyda chryn rwyddineb yn y Saesneg ac yn y Gymraeg —Cymraeg Aberdar; a llawer tro y mae wedi llanw bwlch oedd wedi ei adael yn wag drwy absennoldeb y pregethwr. Gyda'r fath brofiad, gallwn ddysgwyl y bydd Mrs. Jones o ryw wasanaeth fel aelod o Fwrdd Llywodraethol yr Ysgol Ganolraddol yn Aberdar.

PREGETH FLYNYDDOL YN RHYDYGWIN,

Gorphenaf 23, 1896.

Gan y Parch. D. Ifor Davies.

"*Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd.*"—HEB. XIII. 8.

Mynych iawn y gofynir y cwestiwn, "Pa beth y mae Iesu Grist wedi ei wneyd dros ddynoliaeth?" ac amrywiol iawn yw yr atebion a roddir iddo. Feallai na cheir cynnifer a dau i gydweled yn hollol ar y mater; etto, fel rheol, canfyddir parch cyffredinol i'r Athraw cyffredinol, gan ddynodi ffydd gyffredinol, yr hon sydd yn myned yn mhell islaw pob amrywiaeth barn—ffydd yn nylanwad achubol y Dyn rhyfedd hwna o Nazareth, enw yr Hwn sydd yn sefyll uwchlaw pob enw arall yn nghariad a pharch y byd Cristionogol.

Dengys, er yr holl wahanol olygiadau am yr Iesu, fod yna gydnabyddiaeth glir fod rhywbeth dwyfol ynddo—rhywbeth ag sydd yn byw drwy yr holl oesau—"ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd."

Y mae'r opiniynau am dano, am Ei berson, Ei natur, Ei genadwri, pa beth a ddaeth i'w wneyd dros ddyn, yn mha ystyr y gellir ei alw yn Athraw, Arglwydd, Iachawdwr--y mae'r opiniynau hyn yn amrywiol a chyfnewidiol. Yn yr Eglwys Gristionogol y maent yn cyrhaedd yr holl ffordd oddiwrth wir Dduwdod hyd at wir ddyndod, oddiwrth Iachawdwriaeth a brynwyd gan Ei waed hyd at Iachawdwriaeth oddiwrth lywodraeth y drwg trwy'r derbyniad o'i yspryd a'i fywyd.

Nid yw'r opiniynau a goleddid y ddoe, oddieithr i fesur terfynol, yr opiniynau a goleddir heddyw; ac nid oes genym yr un gwarant dros gredu fod yr opiniynau a goleddir heddyw i barhau am byth. Y mae opiniynau yn bethau diflanol. Cymmeriad, yspryd, bywyd, personoliaeth—y pethau hyn sydd anniflanol. Y mae rhai'n yn byw. Y mae rhai'n, hwyr neu hwyrach, yn hawlio gwarogaeth y meddwl myfyrdodol a'r galon gariadus.

Pa bryd bynag y cychwynir unrhyw wir ddiwygiad, pa bryd bynag y gwneir unrhyw ymdrech i ddyrchafu dynolryw, bydded y mudiad y tufewn neu y tuallan i'r Eglwys Gristionogol, y mae'n beth adeiladol iawn i sylwi pa mor gyflym y mae'r meddwl yn cael ei droi at yr Iesu a'i addysgiadau, ac mor rhwydd y ffeindir rhyw air, neu wirionedd, neu weithred a briodolir iddo Ef yn cyfiawnhau, yn symbylu, ac yn cynhyrfu'r mudiad.

Gan mor eang a *chwyldroadol*, neu yn hytrach *dadblygiadol*, ydoedd meddwl yr Iesu, mor anmhleidgar i bob peth annghyfiawn, mor bleidgar i bob peth cyfiawn, mor anhunangar ei fywyd, mor llwyr ymgyssegrol yn Ei waith yn ceisio dyrchafu Ei gyd-ddyn, nes bod unrhyw a phob achos sydd yn gwir olygu gwellhau'r byd yn ffeindio ynddo Ef ei ysprydoliaeth. Y mae llawer i'w cael na alwant eu hunain yn Gristionogion, etto yn canfod yn yspryd a bywyd yr Iesu y cynhyrfiad, y gyfraith, yn nghyd âg anogaeth fywiogol pob math o ymdrech sydd yn tueddu i ddwyn oddiamgylch ddedwyddwch dyn.

"Fe ddysgodd yr Iesu," medd un ysgrifenydd sydd yn sefyll y tuallan i Gristionogaeth, "fod chwyldroad yn nghyflwr dyn ar fin cymmeryd lle, a thyna paham y tynodd ar unwaith ddigofaint a chariad dyn tuag ato; y byddai i hen drefn pethau fyned heibio; nad oedd teyrnasoedd y ddaear ddim i fyny â'u gwaith, ac y buasai teyrnas nefoedd yn cymmeryd eu lle. Syniad mawreddog, gododig, a gorlawnol, ac un nas gall dynoliaeth fyth dyfu allan o hono, neu fforddio i'w annghofio."

Y mae'r fath ddywediad a hwna, gan un nad yw yn proffesu ei hun yn Gristion, yn eangu ein syniad ni am yr Iesu trwy ein helpu ni i weled rhai pethau ynddo Ef yn fwy eglur nag y gwna llawer o'r eglwysi Cristionogol sydd yn rhoddi eu prif feddwl i iachawdwriaeth bersonol. Y mae rhai o'r teyrngedau mwyaf argraffiadol i gymmeriad a dylanwad yr Iesu wedi dyfod oddiwrth lawer ag y mae'r eglwysi wedi edrych arnynt fel hereticiaid.

Yn mhregeth nodedig Theodore Parker ar y "Diflanol a'r Parhaol

mewn Cristionogaeth," pregeth a greodd y fath fraw a syndod tua 50 mlynedd yn ol, hyd y nod yn mhlith ein heglwysi Undodaidd ni, fe ffeindiwn ynddi y geiriau canlynol yn nghylch y parhaol yn yr Iesu :—

"Teimlai fod i'w eiriau barhad tragywyddol. Felly, ymddiriedodd hwynt i'r awyr ansertenol ac am ddeunaw cant o flynyddau y mae'r elfen hona wedi eu cadw yn dda. Y maent yn awr wedi eu cyfieithu i bob ymadrodd dynol, ac yn cael eu llefaru gan filiwn tafodau'r ddaear, oddiwrth fforestydd pinwyddol y Gogledd hyd at goedwigoedd palmyddol yr India bell. Ymgymmysgant â thwrw y ddinas boblog, ac ymunant â berw y môr annghyfanedd. Ar fore Sabbath, ail-adroddir hwy o eglwys i eglwys, o ynys i ynys, o wlad i wlad, nes bod eu miwsig yn amgylchu'r byd. Y mae'r geiriau hyn wedi dyfod yn anadl y da, yn obaith y doeth, ffydd y duwiol, a hyny i filiynau lawer o galonau. Hwynt-hwy yw gweddiau ein heglwysi, ein defosiwn goreu ar yr aelwyd a'r maes, swyn-gyfaredd ein calonau. Y geiriau hyn sydd o hyd yn cyflawni gweithredoedd rhyfedd, o'u cymharu â pha rai nid yw y gwyrthiau y sonir am danynt yn ddim mewn ardderchogrwydd a defnyddioldeb. Y gweddiau hyn sydd yn adeiladu ein temlau ac yn harddu ein cartrefi. Dyrchafant ein meddyliau at yr hyn sydd odidog. Purant ein delfryd o'r hyn ddylai purdeb fod. Sancteiddiant ein gweddiau am wirionedd a chariad. Prydfertholant y bywyd dwyfol ag y mae dynion cyffredin yn ei fyw. Rhoddant adenydd i'n hymawyddiadau. Y fath hudolwyr ydynt! Y mae tristwch yn cael ei suo i gysgu wrth eu gorchymyn. Cymmerant y colyn allan o afiechyd, ac yspeiliant adfyd o'i allu siomedigol. Rhoddant iechyd ac adenydd i'r enaid duwiol, wedi ei wangaloni a'i longddryllio ar fôr bywyd, a chalonogant ef i wneyd un ymdrech arall ar hyd y ffordd beryglus. Gwnant bobpeth yn eiddo i ni—Crist yn frawd i ni, amser yn berthynas i ni ac yn dyst o'n buddugoliaeth. Datguddiant i ni bresenoldeb Duw yn mlodeuyn cyntaf y gwanwyn, yn aderyn syrthiedig y to, yn nhrallod a pherlewyg y byd, yn llawer mwy eglur nâ phe buasem heb eu clywed."

Mae'n rhaid fod y dyn a allodd ysgrifenu hynyna wedi eglur ganfod yn yr Iesu rywbeth ag sydd fyth barhaol—"ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd." Ac etto, am ei fod wedi amheu genedigaeth wyrthiol yr Iesu, ac am ei fod wedi credu fod yspryd a gwirionedd yr Iesu yn well tystiolaeth o'i ddwyfoldeb nag yw'r gwyrthiau a briodolir iddo, edrychid arno fel heretic peryglus, hyd yn nod gan gyfran fawr o'n henwad ni. Ond bu Efe fyw trwy hyn o beth—do, bu farw a chyfododd drachefn drwyddo i anrhydedd a chariad tyrfaoedd sydd erbyn heddyw wedi eu dyrchafu a'u bendithio trwy ei ysgrifeniadau yn y wlad hon yn ogystal a'r Amerig.

Bu rhai o honom yn dueddol i feddwl, os gadewid enw Crist allan o'r weddi neu y bregeth, fod y byd yn dyfod i ben – h.y., y byd Cristionogol—ac na allasai yr Iesu oroesi yr esgeulusdod, ond dysgasom yn fuan, pa un ai yn fwriadol neu ddamweiniol y gadawyd

allan Ei enw, y gallasai y bregeth a'r weddi, wedi'r cyfan, fod yn llawn o yspryd Crist, ac ysgwaethyroedd, ar y llaw arall, yn llwyr amddifad o'i yspryd pan fynychaf a nertholaf yr enwid Ef.

Felly, pan y darfu i rai 'Undodiaid gyssylltu enw yr Iesu ag enwau Confucius a Buddha, cafodd llawer o'r un enwad eu brawychu fel pe buasai rhyw ddrwg wedi cael ei wneyd i'n Hathraw Mawr wrth ei enwi Ef yr un pryd a'r enwogion henafol hyn. Ond pa fwyaf yr ydym wedi ddysgu am yr eneidiau Dwyreiniol mawrion hyn, trwy ein dysgedigion diweddar, y mwyaf eglur y gwelwn eu bod hwythau hefyd yn feibion i Dduw yn nghyd â chenadwri ddwyfol i'w hoes, er nad ydynt o'u cymharu âg anwyl Fab Nazareth ond megys "goleuni Asia" o'i gymharu â Goleuni'r byd. Ac felly, y mae ein meddyliau ni am y gwir Grist wedi ymeangu, nes ein bod yn y diwedd wedi cyffwrdd ymylon Ei gariad mawr at bawb dynion fel rhai ydynt blant i Dduw, ac yn cydnabod pob gwir Ddaioni megys ag y gwnaeth Efe, fel peth dwyfol.

Hyn, fel ag yr wyf fi yn ei deall, ydyw Cristionogaeth bur. Dengys i ni y parhaol sydd yn gorwedd o dan y cyfnewidiol. Ond yn yr Iesu—y Crist delfrydol—y mae yn bod ddyfnder yn ogystal ag eangder. Nis gall credoau blymio'r dyfnderau hyn. Rywsut, gwneir ni i deimlo, wrth ein bod yn dyfod yn agos at y bywyd rhyfedd hwna, nas gallwn ei osod *ef* mewn unrhyw ffurf-eiriau neu iaith ystrydebol. Y mae'r peth hwn ynddo ef sydd yn myned yn is i lawr na'r bywyd goreu a'r meddwl godidocaf, ac yn cyffwrdd y ffynonellau dirgel, allan o ba rai y mae'r holl fywyd a'r meddwl godidocaf yn llifo.

Y DELYN.

Y DELYN, mor swynol yw'th seiniau i mi—
Hoff enw fy ngwlad sydd yn nghlwm wrthyt ti,
Henafiaeth—enwogrwydd sy'n llechu'n dy gol—
Dros frigau yr oesau edrychaf yn ol,
I'th weled yn nwylaw meib Cymru mewn bri,
A'u bysedd yn chwareu dy dyn deir-rhes di;
I'th ymyl yn ysgafn ei droed doi y Brython,
I wrando yn astud ar ffrwd dy gyfrinion.

'Nol brwydro gelynion—estroniaid heb ri;
Doi heddwch yn llif dros dy danau mwyn di
Dy felus acenion wnai'r fron oer ar dân—
Gan yfed gorfoledd ac arllwys ei chân;
O balas i fwthyn dy enw o hyd
Oedd iddynt felusaf gerddoriaeth y byd;
Fel eira yn toddi dan desni y Gwanwyn
Y ciliai cenfigen wrth dincian y delyn.

Pan fyddai y cleddyf a rhwd ar ei fin,
A phob rhyw ymryson fel mewn bythol hun,
Y llanciau a byncient eu cerddi mwyn derch,
A thrwyddynt canfyddent brif wrthrych eu serch ;
Fel engyl o Wynfa yn harddwch i gyd,
Yn wylaidd a thirfion a dengar eu bryd ;
Wrth blethu caniadau yn seiniau y delyn,
'Roedd pur wlith yr Awen i'r cwmni yn disgyn.

Y delyn, bu'r estron yn rhoddi ei fryd
Ar gael dy hoff danau'n doredig i gyd ;
Gwladgarwch a wridai wrth weled y rhain,
A chlymai hwynt etto i wneyd peraidd sain—
Sain rhyddid wnai dreiddio fel trydan trwy'r tir,
Gynhyrfai bob Cymro wnai' galon fel dur ;
Deffroai ei ddewrder dros Gymru a'i defion,
A rhuthrai yn hyf yn mhoeth-wres ei galon.

Tra'r awel yn teithio dros gopa y bryn,
Henafol fri'r delyn fo bythol yn wyn ;
Ac urddas o'i chwmpas i'w chadw o hyd
Yn uchel yn ngolwg cenedloedd y byd ;
Ei nodau clir-seinber yn ymlid pob loes,
A throstynt boed mantell anrhydedd pob oes ;
Alawon hen Gymru, ei cherddi mwyn, dillyn,
Ddylifont i'n lloni dros wefus y delyn.

Cefncoed. CASWALLON.

Y BREGETH UNDODAIDD GYNTAF GLYWAIS.

Y MAE rhyw hanner dwsin o deuluoedd Undodaidd yn Mhenderyn, bob amser, a hyny er cyn cof na hanes, fel yr wyf yn deall. Dyna deulu Cilhepste Fawr, wedi hyny o Drebanog Isaf. Dynion tàl, golygus, oedd y rhai hyn. Yr oedd eu merched tua chwech troed-fedd o daldra ; ac fel rheol yr oedd ganddynt feddyliau pur dàl am danynt eu hunain ; hen deulu Clunperfedd, un o ba deulu, fel y dywedir, oedd gwaig gyntaf y bardd enwog, Edward Evans o'r Toncoch ; hen deulu Penycae ; teulu Gellidiafolws, a theulu yr hen fardd o'r Garwdylau—William Harri, &c. Ar droiau, ond hynod anaml—ymweliadau angylion, megys—deuai gweinidogion Hen Dy Cwrdd, Aberdar, i gynnal cyfarfodydd pregethu i rai o'r tyddyndai a enwais. Clywais hen wr, a elwid Jaci o Ynysywen-dorth, yn dweyd iddo glywed y Parch. Thomas Evans, Glyncothi, yn pregethu ar brydnawn Sul yn Mhenycae. Aeth Jaci i'r cwrdd yn gynnar, a gwelai ryw ddyn lled drwsiadus yr olwg yn eistedd

ger y tân, ac yn adrodd stori, bur anhygoel yn marn Jaci, am neidr ddaliwyd mewn boncyff ar bentan rhyw ffermdy ger Caerfyrddin; a mawr oedd ei syndod pan welai y storïwr yn codi ar ei draed i ddechreu y cwrdd. Mae yn bossibl nad oedd Jaci, y pryd hwnw, wedi darllen hanes Paul a'r wiber yn Melita.

Ar brydnawn Sul, yn Ngellidiafolws, oddeutu hanner can' mlynedd yn ol, y clywais I fy mhregeth. Y pregethwr oedd y Parch. J. Jones, Hen Dy Cwrdd, Aberdar. Yr oedd côr y capel wedi dyfod i fyny gyda'r gweinidog, a'r argraff wnaethant ar fy meddwl ieuanc I oedd, eu bod yn canu yn ardderchog iawn. Nid oeddwn erioed cyn hyny wedi clywed y "pedwar part" yn cael eu canu. Yr unig leoedd o addoliad oeddwn wedi fynychu oedd, Eglwys y Plwyf a chapel bach y Bedyddwyr yn y Pontbrenllwyd. Yn yr Eglwys, er marwolaeth Tomos o Lwynmoch (1832), nid oedd neb wedi canu "caned;" ac yn Nghapel bach y Bedyddwyr, ni chlywid braidd byth ddim ond yr alaw. Os buasai rhywun yn beiddio canu nodyn neu ddau o'r Bass, buasai cymmaint o son am dano â'r "croen du gerddodd ei hun!"

Yr unig rai, can belled ag y gwn, oedd yn y côr ag y daethum i adnabyddiaeth â hwy yn y dyfodol, oedd Thomas J. Jones (Cynonwyson) a John Jones (Eiddil Cynon). Y tebygolrwydd yw fod y rhan fwyaf o lawer o honynt, erbyn hyn, wedi myned "i ffordd yr holl ddaear."

Y *pregethwr*. Nid oes eisiau i mi son llawer am dano fe wrth hen ddarllenwyr yr YMOFYNYDD; ond hwy oddefant i mi adrodd yr hyn sydd wedi ei argraffu ar un o lechau fy nghalon, na ddilëir mo hono byth mwy. Fel bechgyn o'm hoed (rhwng 9 a 12 mlwydd yn rhywle), mynais fyned mor agos ato ag oedd yn bossibl, gan benderfynu, os gallaswn, lyncu pob gair a ddeuai dros ei enau. Yr oedd o gorffolaeth dywysogaidd, hytrach yn "dew;" o edrychiad llym, ac i raddau yn "chwerw." Nid oedd yn siaradwr rhwydd; ei frawddegau i raddau yn fyr a swtta, ond yn hynod finiog ac i'r pwynt; yn fwy tebyg o lawer i ddagr deufin y Groegwr nag i gleddyf hirgam y Twrc. Yn ystod y bregeth, gyrwyd y dagr hwnw, hyd y carn, droion, i groen "Sion o Geneva!"

Y *bregeth*. Yr wyf bron yn sicr na "chododd efe destyn" o gwbl; ond ei bwnc oedd "rhoddi rheswm," yn ol cynghor yr apostol, "am y gobaith oedd ynddo." Yr oedd rhan o'i ragymadrodd rywbeth yn debyg i hyn, os nid yn hollol felly:—"Nid oes gan ein henwad ni na chapel na chynnulleidfa yn y gymmydogaeth hon; a chan ein bod yn ymwthio arnoch fel hyn, mae yn naturiol iawn i chwi ofyn pwy ydym a pha bethau ydym yn gredu. Gan ein gelynion, gelwir ni yn Sosiniaid, ond yr ydym yn gwrthod yr enw. Canlynwyr dyn o'r enw Sosinus oedd y Sosiniaid, ac nid wyf yn credu fod neb yn coleddu syniadau cyffelyb i'w heiddo hwy yn ein hoes ni; beth bynag, nid ydym ni yn eu coleddu." Yna rhoddodd ddarnodiad cyflawn o ddaliadau yr enwad. Dywedid fod *Glyncothi* wedi dweyd yn rhywle "nad oedd mwy o rinwedd yn

ngwaed Iesu Grist nag mewn gwaed ceiliog," ac yr oedd hyny wedi creu cryn lawer o ragfarn yn meddyliau hen dyddynwyr Penderyn yn erbyn yr Undodiaid; ond siaradai Mr. Jones mor barchus am Iesu Grist, fel mai y farn gyffredinol am dano wrth ddyfod o'r bregeth oedd nad oedd gwahaniaeth "*gwerth son am dano*" rhyngddo ef a'r Trindodiaid! Cafodd ei sylwadau argraff neillduol o ffafriol, yn enwedig arnom ni, y dosparth ieuengaf o'r gynnulleidfa. Tir ardderchog i blanu egwyddorion ynddo yw y meddwl ieuanc o'r wyth i'r pymtheg mlwydd oed, ac oni ddylid bod yn ofalus o hono?

Ni chlywais I air o son am "Sion o Geneva," fel y galwai Mr. Jones ef, cyn hyny; ond cawsom ei hanes yn weddol gyflawn ganddo ef, a beirniadaeth lem ar ei farn dduwinyddol. Nid annghofiwyd ei driniaeth arw o Michael Servetus, ychwaith. Yr oedd yr hen dyddynwr, Morgan Rhys, o Gellidiafolws, er na fu erioed, can belled ag y gwn, yn aelod yn yr Hen Dŷ Cwrdd, yn aml yn "rhoddi hwyl" i'r pregethwr drwy ddweyd "Ië, Duw anwyl, ië!"

Un o ddyddiau y "llythyrenau cochion" yn hanes fy mywyd I oedd y diwrnod hwnw yn Ngellidiafolws, ac nis gellir ei annghofio.

J. H. A.

Y CEILIOG AR Y CLOCHDY.

Nid yw safle y ceiliog yn sefydlog iawn, ac etto nid oes amheuaeth nad yw yn ateb dyben ei fodolaeth, sef i ddangos o ba gyfeiriad mae'r gwynt yn chwythu. Gwir fod nod ei ymgyfeiriad yn amrywio weithiau o ddydd i ddydd; ac weithiau, rhaid cyfaddef, lawer gwaith yn y dydd; ond yn wastad fe'i ceir, er gwaethaf ei fynych newidiadau, a'i big, mewn ystyr, at un pwynt o hyd, y pwynt o gyfeiriad yr hwn y daw y gwynt; megys y mae yn sefydlog ar y werthyd lle mae yn troi, mae'n sefydlog hefyd i bwynt y gwynt.

Yn nghanol mor duwinyddiaeth y byd, gyda'i amrywiol *cross-currents*, a oes modd penderfynu cyfeiriad treigl y blaenfynediadau? Sonir llawer y dydd heddyw am

WELSH SCHOOL OF THEOLOGY,

ac y mae llawer y gellir ei ddywedyd o'i blaid. Tybir fod y Cymry yn meddu cymhwysderau arbenig ar gyfer y maes duwinyddol. Efallai eu bod, ond hyd yma ni thybiwn eu bod wedi dangos hyny. Gallant bregethu gydag arddeliad neillduol, ac y mae llawer o honynt wedi dangos cymhwysderau rhagorol a hoffder mawr at ryw linellau o athroniaeth; ond a ydyw athroniaeth a duwinyddiaeth y dyfodol o fewn golwg ganddynt? Rhaid i dduwinyddiaeth y dyfodol fod mewn cydgordiad ag athroniaeth a gwyddoniaeth y dyfodol. Ni wnaiff ymagweddiad o wrthwynebiad ateb un pwrpas ond gosod y sawl a'i cymmer mewn ffordd i gael ei shynto fel y byddo i gerbyd

y blaenfynediant gael lle i basio. Ceir arwyddion, fodd bynag, fod arweinwyr yr eglwysi a'u llygaid ar y ceiliog. Nid pawb, wrth gwrs, fedr ddarllen arwyddion yr amserau. Tueddu wneir i redeg ar ol *gret crei*, gan annghofio fod yn y cyfeiriad hwnw yn fynych ond *littl wl*. Cara'r Cymro'r

HEN BIWRITANIAID,

ac yn iawn felly, nid oes neb yn fwy yn teilyngu ein cariad. Ond y mae'r Cymro, fel y Sais, wedi camddeall y Piwritan. Tybia'r Sais mai sylwedd Piwritaniaeth yw ystum sobr a gwyneb hir, a gorfanylwch gydag allanolion crefydd; a'r Cymro a ddeil ei fod yn cynnwys credo a chyffes ffydd yn ogystal. Perthyn y pethau hyn i ddamweiniau, ac nid i sylweddion Piwritaniaeth. Egwyddor sylfaenol a llywodraethol Piwritaniaeth oedd ffyddlondeb i gydwybod. Yr oedd gan Erasmus fwy o reswm o du ei dduwinyddiaeth, a chan Luther fwy o gydwybod; fe fyn crefydd y dyfodol dduwinyddiaeth fyddo'n adsain o reswm cydwybodol, ac o gydwybod resymol. Yr oedd

ANERCHIADAU LLYWYDDION

1896 yn awgrymiadol fod yr egwyddor hon ganddynt mewn golwg. Pob parch i'r triwyr gonest fu'n llefaru—y Parch. W. James yn Lerpwl; y Parch. D. M. Jenkins yn Mhenybont ar Ogwr, a'r Parch. Abel J. Parry yn Mhontypridd—deallent oll gyfeiriad pig y ceiliog ar y clochdy. Fel y dywed Mr. James - "Telir sylw mawr yn bresennol i gyssylltiad yr athrawiaeth a'r byw Cristnogol. Nid yw uniongredaeth mewn bri mawr os na fydd yn unioni y fuchedd;" ac i hyn fe ddywed Mr. Jenkins a Mr. Parry—*ditto, ditto*. Da genym ddeall am Mr. Jenkins yn neillduol, gan ei fod yn amlwg ei fod wedi symmud peg oddiar yr amser y criodd David Charles, Pencware, "*stop*" arno pan oedd yn pregethu (os efe oedd hwnw) ryw ddeugain mlynedd yn ol yn lle Davies, Castell Newydd, yn Llwynrhydowen. Er mwyn sicrhau Ysgol Dduwinyddol Gymreig o'r iawn ryw, tybia Mr. Parry y dylid cael gan yr athrawon draddodi eu darlithiau yn y Coleg yn y Gymraeg. Heb ddibrisio hyny, onid ymddengys o fwy pwys i ddal ar gynnwys y darlithiau nag ar yr iaith y byddant yn cael eu traddodi ynddi? Eisieu superanniwato rhai o'r athrawon sydd, er mwyn cymmeryd y cam nesaf yn y blaen. Fel y mae pethau yn awr, ceir y llwyfan, mewn llawer man, yn mhell ar ol y seddau. Oni ddylai

Y PWLPUD

fod ar y blaen ar y seddau? Dylai y Boss fod yn gwybod, o leiaf, rywbeth am droion y ceiliog, yn gystal ag am "droion yr yrfa." Gwyddom am ambell i boss na wyr efe nemawr i ddim am gynnwys y newyddiaduron a'r cyhoeddiadau misol. Cofier fod hyd y nod

Cymru "geidwadol" yn raddol yn d'od i afael ei llais. Dyma fel y dywed erthygl olygyddol yn y *Goleuad* am Gorphenaf 29, 1896 : —

"Dylai y Cymry – o bob safle a chylch—adgofio eu gilydd yn aml mai nid yn ol eu credoau, eu proffes mewn siarad, y clorianir ni yn y dydd olaf gan y Pwyswr Mawr. ond yn ol ein gweithredoedd, ein bywyd, ein cyflawniadau!" Felly'r Methodist.

Yn y *Diwygiwr* am Awst, dan y pennawd, "Y Terfynau y dylid eu symmud," ceir sylwadau *radical* neillduol. Duwinyddiaeth y cyfarfod gweddi sydd fwyaf dan sylw. Ymdrinia â llawer o'r brawddegau a arferir mewn gweddiau ac emynau. Dywed y gwneir ceisiadau am yr Yspryd Glan fel pe byddai yn mhell oddiwrthynt; yn debyg i broffwydi Baal ar fynydd Carmel. Yn ei sylwadau arweiniol, myntumia fod y brawddegau duwinyddol oeddynt mewn bri ugain mlynedd yn ol, yn hollol annghyfaddas heddyw. Addawa ychwaneg o ysgrifau yn yr un cyfeiriad. Gobeithiwn y caiff rwydd hynt gan y golygwyr parchus, Watcyn Wyn a Thomas Glandwr; ac na fydd hyny yn achos cynhwrf gormodol yn ngwersylloedd Independia. Dysgwyliwn ymddangosiad rhifynau dyfodol y *Diwygiwr* gyda dyddordeb mawr. Dywedir y teimlir dylanwad gwresogol y *gulf stream* hyd bellderau mawr, a dysgwyliwn, bob yn dipyn, y gwelir

ADFYWIAD DEALLOL—

renascence y degawd olaf o'r pedwerydd canrif ar bymtheg yn cyrhaedd hyd at gilfachau pellaf a thywyllaf ein Cymru anwyl. Bydd yn dybynu yn fawr ar ein harweinwyr meddyliol pa un a fydd yr adfywiad yn Ddiwygiad neu Ddirywiad ar grefydd ein cenedl. Nid iawngredoaeth dybiedig y gorphenol a geidw ein dynion ieuainc rhag syrthio yn ysglyfaeth i'r diluw o amheuaeth, agnosticiaeth ac anffyddiaeth sydd yn awr yn bygwth ein gwlad."

Yn y *Goleuad* am Gorphenaf 22, y mae llythyr ar

BURDEB YR ATHRAWIAETH,

yn yr hon y cyffesir nad oedd hyd y nod Williams, o Bantycelyn, ddim yn anffaeledig. Er enghraifft, cyfeirir at ei emyn, "Ty fy Nhad, dinas rad, a bwrcasodd Dwyfol waed," ac ychwanegir, "Gesyd y llinell fod yr Iesu wedi prynu y nefoedd i'w bobl, i'r hwn olygiad nid oes sail Ysgrythyrol; nid prynu'r trysorau wnaeth yr Iesu, ond eu derbyn fel rhoddion gan ei Dad, er mwyn ei bobl. Dywedir nad wedi ein prynu ni y mae Iesu, na phrynodd yr un o honom erioed."

Amlwg fod rhaid i rai o'n pregethwyr goreu wrth *vocabulary* duwinyddol newydd, er mwyn adgyfaddasu eu pregethu a'u dwyn i gydgordiad â ieithwedd mwy syml y Beibl.

Dywedir mai fflat ddigon y darfu i

DAVIES' LECTURE—"CYNDDYLAN"—

fyn'd—nad oedd ynddi ddim myn'd ytol. Duwinyddiaeth Moses oedd ei bwnc, ond myn rhai na wyddai ddim am ei bwnc. Tipyn yn galed oedd ar yr Uchel-feirniaid, ond heb ddeall eu safle. Defnyddiai gryn lawer o lymwawd, ond nid oedd yno ddim o'r "go." Dylai fod wedi traddodi ei ddarlith hanner can' mlynedd yn ol. Ond dyna, rhaid peidio beirniadu gormod. Nid yw y ddarlith wedi ei chyhoeddi etto, ac, o bossibl, y gwna darlleniad a sylw mwy manwl gynnyrchu yspryd a barn mwy ffafriol.

Awst 6, 1896. Y GWYLIEDYDD.

YMSON YR HENDAD.

'Rwy'n cofio yn burion pan oeddwn yn blentyn,
Pan oeddwn yn blentyn dim ond saith mlwydd oed;
'Mhen saith mlynedd wed'yn yr oeddwn yn hogyn,
Yn myned i weithio'r tro cyntaf erioed;
'Mhen saith mlynedd wed'yn, yn teimlo gwroldeb,
Y cefais fy hunan yn llawn oedran dyn;
'Mhen saith mlynedd wed'yn, 'roedd barf ar fy ngwyneb,
A gwraig wrth fy ochr o eiddo fy hun.

'Mhen saith mlynedd wed'yn, 'roedd rhes o blant anwyl
Yn bwyta yn awchus o amgylch fy mwrdd;
'Mhen saith mlynedd wed'yn, edrychwn am orchwyl
I'r henaf o honynt gael myned i ffwrdd;
'Mhen saith mlynedd wed'yn, nid oedd dim ond blwyddyn
Cyn i mi gyrhaeddyd fy hanner cant oed;
'Mhen saith mlynedd wed'yn, 'roedd arnaf nod henddyn,
Trwy wydrau darllenwn, a thrwm oedd fy nhroed.

'Mhen saith mlynedd wed'yn o flwyddi fy mywyd,
'Roedd blodau'r pren Almon i'w gwel'd ar fy mhen;
'Mhen saith mlynedd wed'yn, ce's oedran 'r addewid
A roddir i ddynion i fyw is y nen;
'Mhen saith mlynedd wed'yn, yr oeddwn yn hendad,
Yn araf fy nghamrau wrth gymhorth fy ffon;
'Rwyf bron gwel'd saith arall, ond dysgwyl yr alwad
I 'mofyn am danaf bob dydd ydwyf bron.

Llanybyther. D. O. JENKINS.

GELLIONEN: NODIADAU HANESIOL.

(Allan o Gronfa y Parch. T. Thomas, J.P., ac wedi eu cyfieithu allan o lawysgrif y diweddar Barch. John James, gan R. J. J.)

Mr. Josiah Rees a ordeiniwyd yn Awst [1767].

Mr. Owen Rees, ei dad, a fu farw yn y mis Mawrth canlynol [1768].

Mrs. Owen Rees a ymbriododd â Mr. [Sion Rees ab] Evan [meddyg o Aberdar] tua'r ail Nadolig ar ol hyny.

Y Mrs. [Rees] presenol o'r Gelligron a ymbriododd â Mr. Josiah Rees tua'r Holantide nesaf, o flaen ei fam, ac yr oedd hyny 48 mlynedd i'r Holantide diweddaf, hyny yw, 1817.

Priododd Mrs. Rees, Holantide, 1769.

Urddwyd Mr. Rees yn Awst, ddwy flynedd cyn hyny, hyny yw, yn 1767.

Bu farw Mr. J. Rees yn 59 mlwydd o'i oed yn Medi, 1804, a buasai yn 60 oed yn mis Hydref ar ol hyny. Rhaid, felly, ei fod wedi ei eni yn Hydref 1744, ac wedi ei urddo yn y 23 mlwydd o'i oed, hyny yw, buasai yn 23 yr Hydref canlynol.

Bu'n weinidog Gellionen 37 mlynedd ac un mis, hyny yw, o Awst 1767 hyd Medi 1804.

Buasai Mr. Josiah Rees yn 73 mlwydd oed yn mis Hydref diweddaf, sef yn 1817, ac y mae Mr. Davis, Llwyn [rhydowen], un flwydd yn ieuengach.

Bu Mr. Rees yn weinidog Gellionen o 1767 hyd 1804, 37 mlynedd, ac y mae Mr. Davis wedi gweinidogaethu yn y Llwyn, &c., o 1769 hyd y flwyddyn bresenol, 1818, 49 mlynedd.

Yn Chwefror 1718 y ganwyd Mrs. Bevan, Gelligron.

Mr. Owen Rees [yr hwn nid oedd ond blwyddyn yn henach] a anwyd yn 1717. Tybia hi ei fod wedi ei eni tua'r un amser o'r flwyddyn a hi ei hunan. Priodasant yn Ebrill 1742, pan yr oedd efe yn 25 a hithau yn 24. Yr oedd efe yn weinidog yn Nghefn Arthen, yn Sir Gaerfyrddin, y pryd hwnw, lle'r oedd Mr. Jenkins, Crug y Maen, wedi bod yn weinidog. Adeiladwyd Capel Twr Gwyn, tua milldir a hanner rhwng Cefn Arthen a Llanymddyfri, iddo ef yn fuan wedi iddo briodi. Buont byw yno 14 mlynedd a 12 yn Aberdar, ac efe a fu farw yn Mawrth, 1768, yn 51 oed. Y mae hi yn fyw y 24ain hwn o Ionawr 1818.

Yn Aberdar, y gweinidog o flaen Mr. Owen Rees oedd un Thomas Lewis, yr hwn a symmudodd oddiyno i Lanharan. Y Thomas Lewis hwn oedd Galfiniad. Dymuniad y gynnulleidfa oedd iddo ymadael, meddai Mrs. Rees.

Yr achos i Mr. O. Rees ymadael â Phentre-ty-gwyn oedd çweryl rhwng dau ddyn o'r gynnulleidfa, gwr Llyn-y-pentan a'i ewythr Williams, Ty'n-y-coed. Y ddau hyn oedd y mwyaf gwresog gydag adeiladu Pentre-ty-gwyn i Mr. O. Rees pan oedd Mr. Prydderch, Maes-y-bwlch, wedi cau drws ty cwrdd Cefn Arthen yn ei erbyn, o

herwydd i Jenkins Crug-y-maen ddywedyd wrtho nad oedd efe, Mr. O. Rees, ddim wedi ceisio gan Mr. Jenkins i bregethu nac i dori bara yn Nghefn Arthen y Sul o'r blaen. Tra, mewn gwir, yr oedd wedi ceisio ganddo i wneuthur un neu'r ddau, ac iddo yntau wrthod!

[Eiddo'r cyfieithydd yw'r hyn a geir rhwng cromfachau scwar.]

NODIADAU AR Y NODIADAU.

Yn "Eglwysi Annybynol Cymru," iv. 86, dywedir i "Mr. David Jenkins gael ei urddo yn Mehefin 1708, i fod yn weinidog yn benaf yn Nghrug-y-maen, ond i gymmeryd ei ran yn holl gylch y weinidogaeth, yn y Cilgwyn, Abermeirig, Ciliau Aeron, a lleoedd ereill. Mae'r achos Annybynol yn Nghrug-y-maen wedi darfod er's oesau, a'r Bedyddwyr wedi bod yno ar eu hol. Rhoddodd Mr. Jenkins ei ddylanwad o du yr eglwysi Calfinaidd a ffurfiwyd yn Ebenezer, Ty'n-y-gwndwn, a'r Neuadd-lwyd, pan dorasant eu cyssylltiad â'r Cilgwyn a Chiliau Aeron. Yr oedd yn fyw yn 1775." Gwall yw hwn wrth bob tebyg am 1757, gan fod y Parch. David Lloyd, Llwynrhydowen, mewn llythyr at ei frawd Posthumus, dyddiedig Mehefin 22, 1758, yn cyfeirio at farwolaeth Mr. Jenkins, Crug-y-maen, ac yn dywedyd ei fod ef wedi cael gwahoddiad i fod yn olynydd iddo.

Ganwyd Mr. Owen Rees yn 1717, ac urddwyd ef yn Mhentre-tygwyn, Mawrth 11, 1742. Derbyniodd ei addysg gyda Mr. Samuel Jones, yn Mhentwyn, Llanon, Sir Gaerfyrddin. Ar dalcen gorllewinol hen eglwys plwyf Aberdar mae careg er cof am dano, gyda'r ysgrifen a ganlyn:—

"Underneath lieth the Body of the Rev. Owen Rees, of this Parish, who died the 14th of March, 1768, aged 51 years.

O ddyn, ar derfyn, bron darfod—ystyr
W ir destun myfyrdod,
E lw i'r byw ni welir bod
N a sylfaen hir breswylfod.

R hybuddiais ddyfais wir ddwyfol—orchwyl
E rchais ar fy mhobol,
E r neb i drysori 'nol
S ail addas a sylweddol."

Sylwer fod yr englynion yn *acrostic*, llythyren gyntaf pob llinell yn helpu i wneuthur enw Owen Rees. Eiddo y Parch. Edward Evan, Toncoch, yw yr englynion.

Thomas Lewis.—Ganwyd ef yn Nghwm Ebwy Fawr, plwyf Bedwellty, Sir Fynwy, 1706. Derbyniwyd ef yn aelod eglwysig yn Mhenmain. Bu am rai blynyddoedd yn aelod gyda'r Methodistiaid, wedi hyny dychwelodd ac urddwyd ef yn Mlaengwrach yn 1746 neu 7. Dywed *Eglwysi Annybynol* (ii. 223) iddo weinidogaethu yn Nhy'n-y-coed hyd 1774, pryd y symmudodd i Lanharan. Efe

ddarfu adeiladu'r capel cyntaf yn Nhy'n-y-coed ac yn Llanharan. Bu farw Awst 15, 1783, yn 77 oed. 1785 sydd ar gareg ei fedd, ond gwall ydyw hyny. Dywed Philip Dafydd yn ei ddyddiadur fod ei farwolaeth "yn golled dirfawr i'r parth hwnw o'r wlad."

Sylwer ar yr hyn a ddywed Mrs. Rees parth cyssylltiad Mr. Lewis ag Aberdar. Y dyb gyffredin yw mai Mr. Owen Rees oedd gweinidog cyntaf yr Hen Dŷ Cwrdd. Adeiladwyd yr Hen Dŷ Cwrdd yn 1751, a dywedir nad ymadawodd Mr. O. Rees â Phentrety-gwyn hyd 1756 (*Eg. An.* iii. 588). Yn yr YMOFYNYDD, 1892, i. 206, dywedir ei fod yn pregethu yn yr Hen Dŷ Cwrdd yn 1754, ond ni ddywedir mai efe oedd y gweinidog ar y pryd. Gwneler ymchwiliad bellach.

LLITH "J. J. T."

MR. GOL.,—Yr wyf, yn Aberaeron, yn anadlu awyr bur glan y mor. Mae holl elfenau natur yma yn gydweddol â fy natur fy hun, er fy mod I wedi colli fy iechyd i raddau. Yr wyf yn cael meddyginiaeth ardderchog ar lan y dyfroedd hallt; ond ychydig o iechyd sydd yma i fy rhan anfarwol. Mae yma lawer iawn o bobl o wahanol fanau o Gymru, ac yr wyf wedi cael ar ddeall fod Undodiaeth yn beth dyeithr iawn iddynt. Mae yma lawer o ddynion o Lanfair Glydogau a Llanddewibrefi, Tregaron, Penuwch, a Chapel Llangeitho. Mae yr enw Undodiaeth yn drewi ganddynt, ac nid oes dim yn rhy ddrwg ganddynt i ddweyd am Undodwr, ac yr oedd yn dramgwydd i gynnyg llyfr o waith Undodwr iddynt. Yr wyf yn credu mai lle campus fyddai lle o'r fath hwn i Undodiaid weithio, oblegyd mai cymmaint o bobl yn dyfod i leoedd o'r fath hwn o wahanol fanau o'r wlad, a buasent yn cario'r genadwri gyda hwynt gartref, lle nad oes son am Undodiaeth; ïe, glanau y mor, lle mae cymmaint o ddynion yn ymgasglu yn nghyd, yw'r lle i weithio. Nid yw eu meddyliau hwy ond gwag ac hollol ddidriniaeth, a llysiau chwerwon iawn-ffyddol wedi gwreiddio yn ddwfn yn eu meddyliau; ond yr wyf yn credu fod y tir yn barod i dderbyn had newydd, gydag ychydig bach o driniaeth. Yn ddiddadl, mae yma faes ardderchog i blanu neu i hau hadau Undodiaeth. Daeth Dr. Griffiths, o Bontypridd, fel aderyn du ar ei aden heibio yma, a chawsom ddarlith ardderchog ganddo ar y "Beibl," ac yn wir, yr oedd yno lawer wedi dyfod yn nghyd; ac mae yn dda genyf ddweyd, cafodd wrandawiad ardderchog. Yn ddiddadl, agorodd ddrws i lawer meddwl, a bu llawer iawn o ymddyddan rhwng y gwrandawyr a'u gilydd am yr araeth, rhai yn melldithio, ac ereill yn bendithio. Fy nghred I yw fod yr araeth wedi bod yn foddion i agor llygaid llawer i weled pethau nad oeddynt erioed wedi meddwl am danynt; ond y peth mwyaf a fy nhrawodd I yno oedd gweled y Parch. John Davies, Alltyplacca,

yn gadeirydd i'r cyfarfod, ac yntau mor bell o'i gartref, ac yn myned adref y noson hono, ac yn cychwyn o Aberaeron am ddeg o'r gloch. Ond yr wyf yn credu, Mr. Gol., y buasai yn well gan Mr. Davies fod ar yr heol trwy'r nos nag aros y noson hono yn Aberaeron; ac ni chafodd yr areithydd lawn chwareu teg, o herwydd gwylltineb Mr. Davies am ei gartref. Peth arall a welais yn rhyfedd iawn mewn perthynas â'r cyfarfod hwn. Yr oedd dau weinidog yn perthyn i'n henwad ni yn Aberaeron noson y ddarlith, ac yr oeddwn yn meddwl y buasent yn cymmeryd rhan flaenllaw yn y cyfarfod; ond trwy fawr syndod i mi, hwy oedd y rhai diweddaf yn dyfod i'r cyfarfod, ac eisteddasant wrth y drws. Onid oedd hyn yn syndod i bob un, yn enwedig i bob Undodwr? Yr wyf bron yn credu, Mr. Gol., mai'r Undodiaid eu hunain yw'r *stumbling blocks* i attal blaenfynediad Undodiaeth. Mae rhyw ofn byth ac hefyd arnynt i gyfaddef eu bod yn Undodiaid. Mae hynyna yn wan iawn, syr. Ond nid wyf yn bwriadu bod yn faith y tro hwn. Mi dreiaf dd'od a rhywbeth etto y tro nesaf.

GEIRIAU IESU.

"Ond fy ngeiriau I nid änt heibio ddim."

"Nid änt heibio," er i'r moroedd gael eu llyfu gan y fflam,
Ac i'r haul ar rawd y nefoedd fethu'n deg a symmud cam;
Er i ser y nef gydsyrthio megys dail yr Hydref llym—
Geiriau Iesu saif bryd hyny, "nid ant heibio—heibio ddim."

Heibio'r ä yr holl blanedau, fel gorymdaith wyllt ddidrefn,
Dros orwelion pella'r gogledd, ac ni ddont yn ol drachefn;
Heibio'r ä y nef a'r ddaear, fel dwy fellten wibiog, chwim,
Ond am eiriau byw, digymhar, Iesu, "Nid ant heibio ddim."

Aros byth heb fyned heibio fydd y geiriau hyn bob darn,
Aros nes cyferfydd etto holl breswylwyr byd mewn barn;
Aros wed'yn, yn nghydwybod teulu'r tân mewn nerth a grym;
Er i'r byd mewn gwawd eu gwrthod, cofier, "Nid ant heibio ddim."

1895. H. T. Jacob.

IEITHOEDD Y BEIBL.

I'r Iuddewon yr ydym yn ddyledus am yr Hen Destament a'r Newydd, a'r Hebraeg oedd yr iaith a lefarid ganddynt, neu yn ddiweddarach, math o amrywiaeth o'r Hebraeg. Yn Salm cxix., ceir enwau y llythyrenau Hebreig.

Am lawer o ganrifoedd, rhenid eu gwlad Canaan, neu Palestina, i ddwy ran, gogledd a de; yn gyntaf, pan ymranodd breninoedd Israel oddiwrth freninoedd Judah; ac wedi hyny, pan ar eu dychweliad o'r caethiwed, yr ymgadwodd y Samariaid ar wahan oddiwrth Iuddewon Jerusalem.

Yr oedd yr iaith yn dra thebyg yn y ddwy ran o'r wlad, ond yr oedd llythyrenau y Samariaid yn wahanol iawn i eiddo yr Iuddewon, fel y gellir gweled oddiwrth y darluniau hyn :—

AU HS O H J — Yr enw "Josua" mewn llythyrenau Hebraeg.

AU HS O H J — Yr enw "Josua" mewn llythyrenau Samaraidd.

Yr oedd ieithoedd Assyria a Babylonia yn debyg iawn i iaith yr Iuddewon; ond yr oedd y ddwy genedl hyn, yn gystal a'r Persiaid, yn defnyddio llythyrenau tebyg i lun saeth *(arrow-headed)*. Gwelir enghreifftiau lawer ar y gweddillion o Ninefeh sydd yn yr Amgueddfa Brydeinig yn Llundain. Gwelir oddiwrth ffurf y llythyrenau Hebreig y gellid yn rhwydd eu hysgrifenu â'r ysgrifell o gawnen (*reed*), tebyg i'r hwn a ddefnyddir heddyw yn y Dwyrain. Dyma enghraifft :—

Y llythyrenau pen saeth a ddefnyddid yn Ninefeh, Babilon, a Phersia.

Un o'r ieithoedd ysgrifenedig boreuaf oedd yr Aifftaidd, neu, fel y gelwid hi wedi'n, y Goptaeg. Pan wnaeth Pharaoh yr orymdaith er mwyn anrhydeddu Joseph (Gweler Gen. xli. 43– 8), yr oedd y swyddogion Aifftaidd a'i harweinient drwy'r ystrydoedd yn llefain wrth y bobl: "Abrec, Abrec," gan alw arnynt blygu pen.

Ysgrifenai yr Aifftwyr eu hiaith mewn dwy neu dair o wahanol ffyrdd. Yr oedd yr hieroglyphig (y ddarluniadol neu'r sanctaidd) yn hardd iawn pan wedi eu tori ar eu temlau neu eu beddfeini; ond araf a llafurfawr oedd i'w wneuthur. Yr oedd ganddynt un arall pan yn ysgrifenu ar y papyrus, yr hwn oedd fath o risgl a ddefnyddient fel papyr, yn debyg i risgl mewnol y ffawydd (*buch*=*boc*=*book*) a ddefnyddid gan y Tiwtoniaid. Dyma enghreifftiau :—

Llythyrenau Hieroglyphig, neu ysgrifen sanctaidd y cofgolofnau.



Yr ysgrifen Hieratig a ddefnyddid ar y Papyrus.



Yr Enchorial, neu y llaw redegog gyffredin.

Arwyddnodent enwau eu breninoedd trwy osod llinell ar wedd wy *(oval)* o amgylch iddynt. Ceir yn fynych bàr o'r arwyddnodau hyn ar golofnau coffadwriaethol i ryw frenin, yn cynnwys teitl a chyfenwau, megys eiddo y brenin Shishank, lle y ceir pedwar nod i sillebu ei enw, fel hyn, dwy restr o'r blodeu lotus, SH ; llinell donog N, bloc trionglog K, yn gwneuthur gyda'u gilydd Shshnk

SHISHANK, brenin yr Aifft, yr hwn a ymladdodd yn erbyn Rehoboam, 1 Bren. xiv. 25.

Sonir am ieithoedd ereill y Beibl, megys y Syriaeg, neu iaith Damascus. Nid oedd hon chwaith ond math o amrywiaeth o'r Hebraeg. Yn Actau ix. 36, ceir y gair Tabitha, gair sydd yn y Syriaeg yn golygu *myn* ; ond a gyfieithir yn "Dorcas" gan y Groegwyr, hyny yw *gafr* neu *garw*. Yn Marc v. 41, cawn Iesu yn defnyddio'r geiriau Syriaeg, "Talitha Cumi." Pan osodwyd Iesu ar y groes, dywed Luc fod yr ysgrifen mewn tair iaith, y Roeg, y Latin, a'r Hebraeg, gan ddangos fod y tair iaith yn arferedig yn Nghanaan ar y pryd.

ADGOFION BOREU OES.

[GAN BRYCHANWYSON.]

RHYW adgofion melus yw adgofion boreu oes. Y mae rhyw swyn ac adloniant cyfareddus yn nglyn a phob golygfa sydd yn ymrithio i'r meddwl am y dyddiau gynt. Y mae edrych yn ol dros ysgwyddau y gorphenoli adeg dyddiau dedwydd maboed yn dwyn ar gof ddygwyddiadau a throion a gynnyrchant lawenydd i fynwes sydd ar fethu anadlu, yn nghyd a sirioldeb i lygaid sy'n dechreu pylu gan henaint, a gwen anymwybodol i ddawnsio ar ruddiau rhychiog yr hen wr penwyn, crynedig, sydd yn didach yn y cornel ger y tân, ac yn rhy analluog i wneyd dim drosto ei hun, ond yn unig dyfyru tipyn ar y plant, ei wyrion, a chwareuant o'i amgylch ar yr aelwyd, tra bydd y fam yn ddiwyd a dyfal gyda gorchwylion y ty a'r teulu. Ac O, mor fywiog y daw yr hen ddiareb hono i'w feddwl—am dano ei hun—pan yn nghanol dyfyru y rhai bychain, a hwythau yn anterth eu llawenydd a'u hasbri megys yn chwerthin am ben ei ysmaldod plentynaidd—"Unwaith yn ddyn, ond dwywaith yn blentyn."

Adeg lawn o ddiniweidrwydd plentynaidd yw adeg boreu oes, ac adeg a'i llon'd o ddigrifwch ac ysmaldod diniwaid, a phob awr yn

orlawn o foddion chwerthin iachus, a phwy a all chwerthin yn debyg i'r hyn y gall plant wneyd.

Anwyl yw cofio y dyddiau fu gynt,
Er wedi hedeg yn gyflym i'w hynt;
Melus yw'r adgof am lwybrau a ffyrdd,
Llenyrch meillionog, a'r hen dwmparth gwyrdd;
Dyddiau fy maboed—boreuddyd fy nhaith,
Adgof o'ch gwynfyd wna'm llygaid yn llaith;
Wedi myn'd heibio—darfu eich hoen,
Henaint a'm daliodd, bywyd sy'n boen.

Ond, er hyny, aroswch dipyn, nid wyf yn bwriadu terfynu fy llith yn y fan hon, na na, y mae genyf luaws o adgofion doniol ac ysmala, ac eisieu eu gosod ar bapyr—rhai am danaf fy hun, pan oeddwn yn grwt bychan, pan yn was bach gyda'r ffermwyr—yn cael fy ngyru o biler i bost fel ffwl gan bob ioncyn, a hyny lawer pryd wrth lai nâ hanner digon o fwyd. Hefyd, y mae genyf adgofion anwyl am hen bobl garedig—oes, ac y mae eu coffadwriaeth yn anwyl a chyssegredig genyf, am eu caredigrwydd a'u tynerwch tuag ataf lawer tro, pan oedd fy rhieni yn mhell oddiwrthyf, heb allu rhoddi yr un gair o gysur i mi yn fy ffwdan a'm trafferthion, a'm ffordd inau yn rhy bell i fyned hyd atynt.

Y mae gweithred o garedigrwydd a chymwynasgarwch, pa mor fychan bynag y byddo, yn cael effaith ddyfnach ac argraff mwy annileadwy ar feddwl plentyn, neu ddyn ieuanc, nag ydyw yn wneyd ar feddwl dyn oedranus, ac felly gweithred neu ymddygiad anngharedig tuag ato. Gall yr oedranus a'r profiadol ystyried a barnu yn well nâ phlentyn neu ddyn ieuanc; tra'r crwt bach, neu y dyn ieuanc yn fyr o brofiad yr oedranus, y mae ganddynt gof bywiog, a theimladaeth dyner, ac ymwybyddiaeth lawn mor loyw o'r hyn sydd iawn llawn cystal a'r oedranus, a bydd amser yn rhy fyr i ddileu y cam a'r anngharedigrwydd hyny o'r cof. Gocheler wneyd cam â phlentyn, yn enwedig os bydd yn gwybod hyny ar y pryd; oblegyd megir ynddo yspryd dial o'i herwydd, a myn iawn am dano ryw dro neu gilydd, costied a gostio. Peidier dirmygu plentyn—"Y mae dyfod i blentyn, a myned i ddyn."

Dyma fi heddyw yn fy henaint, y mae yr adgof yn awr mor fyw ag erioed am ymddygiad swrth, sarug, ac anngharedig ambell i hen adill o feistr diog, digywilydd a digydwybod tuag ataf pan oeddwn grwt bach, eiddil, yn gwneyd im' ei gashau â chas perffaith. A beth debygwch chwi all fod fy nheimladau tuag at ambell i hen fyswynog loriog a dauwynebog o feistres a gefais lawer tro, oedd yn gallu rhoddi cwlffyn o fara a chaws rhwng brecwast a chinio i'w mab ei hun, tra minau, mewn cymmaint o angen tamaid, yn gorfod edrych ar hwnw yn ei fwyta. Ie, pa sawl gwaith y safodd ambell un wrth dalcen y ford fawr i dori bara i mi bob yn dafell, a'r caws bob yn fripsyn, a chyn y buaswn wedi fy hanner ddigoni y dywedai wrthyf: "Grwt bach, beth sy' yn dy fola di—'does digon i ti gael,"

a minau, yn y fan, yn gorfod codi oddiwrth y ford, a hyny heb hanner fy niwallu. Tybed, mewn gwirionedd, fod ynwyf y mymryn lleiaf o barch tuag at y fath sgerenod o feistresi? Nac oes, ddaliaf I; pa fodd y gall fod? Nid oedd eu hymddygiad tuag ataf ond moddion i alltudio pob gronyn o barch o'm mynwes tuag atynt. Y mae parch pob un yn sefyll ar ei lawr ei hun; os am barch, rhodder yn gyntaf barch i arall.

Hefyd, pa sawl gwaith y bu raid i mi gymmeryd *bai* am yr hyn nas gwyddwn fwy am dano nag am y dyn sydd yn y lleuad. A pha sawl gwaith y cefais fyned trwy y gwynt a'r curwlaw mawr i nol y gwartheg godro, hyd nes yr oeddwn yn wlyb dyferu o'm pen i'm traed, pan yr oedd yn rhy ystormus i fy meistr fyned allan o'i dy. Ie, cofiwch hyn, yr oeddwn yn gorfod bod yn y dillad gwlybion hyny trwy gydol y dydd, nac ychwaith gael cyfle i ddyfod at y tân am foment o'r boreu hyd yr hwyr. Beth debygech am feistres allasai fod o'r gydwybod i'm gadael i fyned i'r gwely a'm crys yn wlyb am danaf? Boreu tranoeth, eilwaith, yn gorfod gwisgo yr un dillad yn wlybion drachefn, a'm hosanau yr un fath; ond gofalai na fyddai i'w mab ei hun wisgo dillad gwlybion, a byddai rhaid i mi godi gyda whip y dydd i 'mofyn y gwartheg a'r defaid i'w godro, a hyny heb na thamaid na llymaid i dori fy newyn cyn cychwyn. Y mae fod ymddygiadau digydwybod o'r fath hyn wedi cael eu cyflawnu gan ffermwyr Deheudir Cymru o fewn y canrif presennol yn profi fod caethwasiaeth yn agosach atom nâ Deheudir America. Er i mi, o dro i dro, gyfarfod â llawer meistr caled, ac â meistres ddigydwybod, cyfarfuais hefyd â rhai tyner a charuaidd, a hynod ofalus am danaf bob amser, ac y mae eu henwau yn anwyl genyf; ac y mae ynof barch hyd y nod at gerrig eu beddau. Nid ä da yn ddidâl, na drwg yn ddiddial.

Bu cam-ymddygiadau meistr a meistres tuag at eu gwasanaeth-ddynion yn achos o fwy o golled nac o ennill iddynt, trwy ddibrisdod a difaterwch esgeulus y gwas a'r forwyn yn y ty, y llaethdy, a'r ysgubor. A phe byddai i ambell ffermwr torsyth a bolerog astudio ei les tymhorol ei hun, y peth cyntaf a wnai fyddai dangos yr un faint o barch tuag at ei was a'i forwyn ag a ddangosai tuag at ei fab a'i ferch ei hun; ond y mae fod y mab a'r ferch yn cael te a bara ymenyn i frecwast ar y ford fach gyda eu rhieni, tra'r gwas a'r forwyn, druain, yn cael ail-dwym a bara haidd, neu siprys a thalp o gosyn cnap gydag ef, ar y ford fawr fan draw, yn peru i'r ddau waeddi dial, ac i gyflawnu hyny mewn llawer dull a modd. Fel ag y mae llawer ffordd i ladd ci heb ei grogi na'i dagu ychwaith ag ymenyn, felly y mae llawer ffordd gan was a morwyn wneyd colled i'w meistr a'u meistres, a phwy a all ddirnad y golled all morwyn achosi wrth beidio neu esgeuluso godro'n llwyr y defaid a'r gwartheg, ac wrth beidio trafod y blith yn ddeche, yn nghyd a thrin y bwydydd yn ddyladwy a diwall. A pha faint allai y gwas wneyd yn yr ysgubor a'r ystabl, pan fyddo y meistr yn ddigon pell. Y gwirionedd am dani yw hyn, na fu meistr da a meistres garedig

erioed ar eu colled gyda'u gwasanaethddynion ; ond am y meistr traws, anfoddog, a'r feistres sur, rwgnachlyd, ddideimlad, cawsant fwy o golled o lawer mewn mis o amser oddiar law eu gwasanaethddynion nag a allent wneyd i fyny mewn blwyddyn.

(I'W BARHAU.)

NODYNAU GWASGAROG.

Y CYFARFOD CHWARTEROL.

Cynnelir cyfarfod chwarterol nesaf y gymdeithas Undodaidd Gymreig yn Ngellionen ar ddyddiau Mercher ac Iau Hydref 7fed ac 8fed, 1896. Bydd gwasanaeth am 7 o'r gloch, nos Fercher, ac am 11, 2.30, a 6.30, dydd Iau. Cyferfydd y pwyllgor am 9.30, bore dydd Iau, ac yn y gwasanaeth am 11 pregethir gan yr ysgrifenydd. Bydd y cyfarfod yn yr hwyr yn wasanaeth sefydliad y Parch. T. J. Jenkins fel gweinidog Gellionen a Threbanos. Traddodir siars i'r gweinidog gan y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, ac i'r Eglwys gan y Parch. John Davies, Alltyplacca. Ceisia Mr. Jenkins genyf dros ei Eglwysi i roddi gwahoddiad taer a gwresog i'r holl weinidogion. Gwneir darpariadau helaeth i'w croesawi hwy, yn gystal a chyfeillion ereill fyddont yn awyddus i fod yn bresenol ar adeg mor bwysig a dyddorol yn hanes Undodiaeth yn Nghwm Tawe. Gwneir casgliadau yn ystod dydd Iau at drysorfa'r gymdeithas a'r treuliau lleol. W. JAMES.

Y LLYFR EMYNAU A THÔNAU.

Yr wyf wedi derbyn protest, wedi ei harwyddnodi gan ddau o brif wŷr yr enwad, yn beio llythyr y Parch. T. J. Jenkins a ymddangosodd yn y rhifyn diweddaf. Cyn cyhoeddi y brotest, credaf fod cyfiawnder â Mr. Jenkins yn gofyn i mi roddi eglurhad. Danfonodd Mr. Jenkins ei lythyr i mi mewn pryd i gael ymddangos yn rhifyn Mehefin, hyny yw, fis cyn cyrddau Rhydygwin, a danfonais inau ranau o hono i'r swyddfa mewn pryd, ond rywfodd diangasant. Ni freuddwydiais y buasent yn ymddangos yn rhifyn Gorphenaf, am y gwyddwn y byddent *out of date*. Digon tebyg nad oedd fy nghyfarwyddiadau i'r argraffydd yn ddigon pendant, ac o ganlyniad, rhaid tadogi y bai i mi. Os bydd i'm dau gyfaill, ar ol yr eglurhad hwn, fynu cael eu protest yn gyhoeddus, boed felly, ond goddefer i mi ddweyd yn y modd mwyaf difrifol fy mod mor ofalus ag y medrwyf i beidio gadael dim i ymddangos a fyddo yn achos tramgwydd i neb. Fy anffawd yw fy mod yn methu gweled achosion tramgwydd lle y medr ereill, ac fe brawf hyn fy annghymhwysder i'r swydd o fod yn olygydd. Mi wn fy annghymhwysder yn dda, ond gobeithiaf mai hon fydd y brotest olaf i mi ei derbyn.

GOL.

Manion ac Hanesion.

GRAIG, LLANDYSSUL.—Dydd Mercher, Awst 19, talodd aelodau Ysgol Sul y lle uchod ymweliad ag Aberystwyth. Trodd pob peth allan yn llwyddiannus iawn, a dychwelodd pawb ar ol mwynhau dydd llawen yn y lle prydferth hwn.

Y PARCH. W. J. DAVIES.—Bydd *photo* a bywgraffiad o Mr. Davies yn rhifyn Hydref.

PENTRE, CWM RHONDDA. — Llawen genym allu hyspysu fod Maelor Evans, Ysw., cyfreithiwr a phrwyadur i dderbyn llwon *(commissioner for oaths)*, wedi ei ethol yn ddiweddar, allan o 16 o ymgeiswyr, am y swydd o ysgrifenydd i lywodraethwyr Ysgol Ganolraddol y Porth, Cwm Rhondda. Dengys y ffaith hon safle Mr. Evans fel dinesydd yn y rhanbarth poblog hwn o Gymru. Y mae efe yn un o gyfreithwyr enwocaf y cymmydogaethau, ac y mae wedi llwyddo i ennill *practice* mawr iddo ei hun oddiar pan y mae wedi ymsefydlu yn y cwm. Caffaeliad mawr i ni fel Eglwys Undodaidd yn y lle hwn yw fod y boneddwr uchod wedi dyfod atom, a theimlwn rywfodd nad yw y cynnulliad o gwbl yn llawn os dygwydd, trwy amgylchiadau anorfod, i'w eiriau caredig a'i wyneb siriol ef fod yn absenol o'n plith. Gesyd ei bresenoldeb fywyd yn y gwasanaeth. Pregetha yn lle Mr. Davies bob yn ail nos Sul pan y bydd efe yn Nghwm Clydach. Gwelir darlun gwych o Mr. Evans yn y *Glamorgan Free Press* am yr wythnos gyntaf o Awst. Onid yw hyn yn dangos fod Undodiaeth yn ennill parch ac anrhydedd yn y lle? A pha ryfedd, pan y mae ganddi y fath wr glew ac athrylithgar yn gefnogwr, fraich ac ysgwydd, iddi?

Marwgofion.

Gorphenaf 19, yn 12 mlwydd oed, bu farw Sarah Davies, merch Mr. James a Hannah Davies, 33, Brondeg Street, Tylorstown, ger Blaenllechau, Rhondda Fach. Rhyw fath o dwymyn fu achos ymddattodiad y fechan dlos a diniwed, yr hon oedd eilun ei rhieni siriol a charedig. Aeth ar neges i Blaenllechau ddydd Mawrth, Mehefin 30, dychwelodd, ac ni chyfododd o'i gwely fyth wedi hyny. Y mae ei thad yn aelod ffyddlon a selog o Eglwys Undodaidd Pentre, Cwm Rhondda. Dydd Iau, Gorphenaf 23, hebryngwyd ei gweddillion marwol i'w daearu yn nghladdfa gyhoeddus Trealaw. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. Mr Hughes (B.), Pontygwaith. Yr oedd Ivor Davies, gweinidog tad y fechan ymadawedig, yn dygwydd bod oddicartref yn Sir Aberteifi ar y pryd. "Gadewch i blant bychain ddyfod ataf fi, ac na waherddwch iddynt, canys eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd."

Iesu Grist, y cyfaill tirion,
A ofala am dani weithion;
Fe'i derbyniodd yn ei freichiau
I'r gwynfaol heirdd drigfanau;
Y plant bychain a fendithia
Yno, fel y gwnaethai yma;
Eu hangelion prydferth-hudol
Welant wyneb y Tad nefol.

Ei beddargraff :—

Fel y syrth y rhosyn tyner
Wrth ymagor yn llawn irder,
Pan ddaw'r deifwynt garw heibio
Gan angeuol chwythu arno,
Syrthio wnaeth y deg anwylyd
Yn moreuddydd tirf ei bywyd
Wrth ymagor fel y rhosyn,
Gan broffwydo harddwch dillyn.

Tlysed oedd a thlysni anian
Ar foreuddydd Ebrill eirian,
Pan mae bywyd ieuanc, effro,
Yn y rhosyn yn ymweithio.
Etto, cyn pen nemawr oriau,
Tra mae'r rhosyn yn ei wenau,
Heibio daw y deifwynt garw,
Plyga yntau 'i ben i farw.

—*Ivor Davies.*

Gorphenaf 29, John Davies, Rhydderchlwyd, Cellan, yn 92 mlwydd oed. Mae 92 o flynyddoedd yn oedran mawr, a llawer mwy na'r cyffredin; ond er hyny, ni ellir dweyd am yr ymadawedig ei fod yn teimlo gyda'r Salmydd ei fod wedi cael ei ddigoni â hir ddyddiau, ac nid oedd yn gwybod ond yn rhanol iawn am y dyddiau blin ac annyddanus hyny y mae Solomon yn son am danynt, pan mae'r ceiliog rhedyn wedi myned yn faich a chwant wedi pallu. Hyd y dyddiau y cyfyngwyd ef i'w wely, rhyw saith mis cyn ei farwolaeth, yr oedd ei yspryd yn fywiog, a'i glust a'i lygad yn anarferol graffus, a'i gerddediad yn sionc ac hyd y nod ar ei glaf-wely teimlai ddyddordeb mawr yn yr hen lwybrau a'r pethau yr arferai deimlo dyddordeb ynddynt pan yn iach. Yn ystod ei gystudd, gweinyddwyd arno yn hynod dyner a gofalus, a hyny ddydd a nos, gan ei briod a'i blant. Dyn diniwed a chywir ei yspryd oedd Davies Rhydderchlwyd, ac fel canlyniad yr oedd yn un â gair da iddo gan bawb o'i gydnabod; ac fel penteulu, yr oedd yn briod hawddgar, yn dad tyner a gofalus, a phryderus iawn gyda golwg ar eu hawddfyd oll. Gadawodd i alaru ar ei ol weddw oedranus, saith o blant, a chwaer, heblaw llawer o berthynasau agos ereill. Ar ddydd ei angladd, daeth torf luosog yn nghyd i hebrwng ei gorff i'r bedd yn mynwent Caeronen, a gwasanaethwyd gan weinidog y lle.

Awst 3, bu farw Mr. J Crimea Davies, marsiandwr, Llandyssul, yn 60 mlwydd oed. Yr oedd wedi bod yn aelod am lawer o flynyddoedd yn nghapel y Graig, ac nid yn fynych y gwelid ei le ef yn wag yn yr addoliad. Yr oedd wedi bod yn ddyn diwyd yn ei fasnach, o'r hon yr oedd wedi ymneillduo er's rhyw flwyddyn a hanner yn ol, gonest yn ei drafodaeth, ac felly mewn parch cyffredin gan ei gydnabod. Y dydd Iau canlynol, claddwyd ei weddillion marwol yn mynwent Pantydefaid, pryd y pregethwyd gan y Parch J. Arthur Thomas, a gwasanaethwyd wrth y bedd gan y Parch. Thos. Thomas, Y.H. Gadawodd weddw a dau fab i alaru ar ei ol.

Awst 18, yn 17 mlwydd oed, Mary Williams, merch i Mr. a Mrs. William Richards, Llwyncelyn Cottage, Cefncoed. Cafodd yr eneth ieuanc hon gystudd maith a phoenus; blinid hi, er mor ieuanc ydoedd, gan y gymmalwst, a hyny er's blynyddau, ond caffai wared o hono am ryw dymhor, pan yr adfywiai ei holl yspryd, a phan yr ymwisgai yr holl ledneisrwydd ei hieuenctid. Ar ddydd cynnaliad gwyl ganu Undodiaid Merthyr ac Aberdar ar y Llun cyntaf yn Mehefin, yn yr hon yr oedd hi yn bresenol, ymddengys iddi gael anwyd, ac i hyny beri i'r gwynegon ail gydio ynddi yn fwy gafaelgar nag erioed. Ni aeth allan o'r ty, na fawr allan o'i gwely, o'r dydd hwnw hyd adeg ei marwolaeth. Dyoddefodd ei chystudd yn hynod amyneddgar, a chafodd driniaeth garedig a gofalus iawn ar law ei mam, ac aelodau ereill y teulu. Yr oedd yn aelod yn yr Hen Dŷ Cwrdd, a dim ond afiechyd trwm a barai i Mary fod yn absenol o'r cwrdd neu o'r Ysgol Sul. Yr oedd yn ffyddlon iawn, a theimlir chwithdod mawr ar ei hol. Anhawdd hebgor ei bath o'n heglwysi. Y dydd Sadwrn canlynol, hebryngwyd ei gweddillion i fynwent eglwys y plwyf gan dorf fawr o gyfeillion a pherthynasau, pryd y gwasanaethwyd ger y ty gan J. Hathren Davies, ac yn yr eglwys gan offeiriad y plwyf.

Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.

Yn unol â phenderfyniad a basiwyd gan y pwyllgor yn y Cyfarfod Blynyddol a gynnaliwyd y mis diweddaf yn Rhydygwin, a chyda chydsyniad caredig y Golygydd, cyhoeddir cyfrifon y gymdeithas am y flwyddyn a derfynodd Mehefin 21ain, 1896. Gwel y darllen-

ydd manwl nad yw'r Eglwysi ddim wedi bod i gyd yn ffyddlon gyda'r casgliad, a chyda golwg ar y cyfraniadau yn gyffredinol, yn gasgliadau ac yn llawysgrifiadau, mae lle i wella *all round*. Iawn yw dweyd fod y gweddill, yn ol y fantolen am 1896, wedi ei *voto* yn mron i gyd gan y pwyllgor yn Rhydygwin. Er mwyn gwneyd y gymdeithas yn allu effeithiol i ledaenu yr achos sydd mor anwyl yn ein golwg i gyd, erfyniaf am help ein *holl* Eglwysi, a dymunwn wneyd appel neillduol am ragor o danysgrifiadau yn ystod y flwyddyn sydd yn dyfod. Dylai cyllid y gymdeithas fod yn ddim llai na £100 y flwyddyn. 'Rwyf yn ystyried y safon yna yn hollol gyrhaeddadwy, a dylem wneyd pob ymdrech i'w sicrhau cyn diwedd y ganrif, beth bynag.

W. JAMES,
Ysgrifenydd.

SOUTH WALES UNITARIAN ASSOCIATION, 1895—6.

SUMMARY OF RECEIPTS.

	£	s.	d.	£	s.	d.
Treasurer of the Old Society (Rev. Thos. Thomas) ..				17	15	11
Moiety of Collections at Quarterly Meetings:—						
Capel-y-Groes	2	1	4			
Nottage	0	17	0			
				2	18	4
Miss Sharpe, London, to defray expenses of delegate to attend Meetings of B. and F. Untarian Association—2 Subs				4	4	0
Subscriptions from the following Districts:—						
Aberdare—Collection at Hen Dŷ Cwrdd..	2	1	2			
Mr. Evan Jones, Contractor	0	10	6			
Mr. Lewis Noah Williams, Caecoed ..	0	10	0			
Mr. Rees Llewelyn, Bwllfa	0	5	0			
Mr. D. J. Jones, Broniestyn	0	5	0			
Rev. R. J. Jones, M.A.	0	5	0			
				3	16	8
Llandyssul—Collection at Graig Chapel	1	7	10			
Rev. W. James, B.A.	1	1	0			
Mr. John Evans, Solicitor	1	1	0			
Rev. Arthur Thomas	0	5	0			
				3	14	10
Pontypridd—Mr. G. R. Jones (Caradog)	2	10	0			
Rev. W. Griffiths, Ph.D.	0	10	6			
Mr. E. J. Thomas, Glenroy Villa	0	5	0			
				3	5	6
Caeronen—Collection at Chapel	0	14	0			
Mrs. Davies, Trebanne	0	5	0			
Mrs. Davies, Wern Cottage	0	5	0			
Miss Jones ,, ...	0	5	0			
Miss Davies ,, ...	0	5	0			
Rev. R. C. Jones	0	5	0			
				1	19	0

SUMMARY OF RECEIPTS—*(Continued.)*

	£	s.	d.	£	s.	d.
Cribyn—Collection at Chapel	0	19	6			
Rev. David Evans	0	5	0			
Mr. J. D. Jenkins, Auctioneer	0	2	6			
Mr. Watkin Davies, Penbryn Cottage.. ..	0	2	0			
Mrs. Jenkins, Mynach Villa	0	2	0			
Mr. Evan Jones, Tanlan..	0	1	0			
				1	12	0
Pantydefaid—Collection at Chapel	1	4	3			
Rev. Thomas Thomas	0	5	0			
				1	9	3
Rhydygwin—Collection at Chapel..				1	6	8
Cefncoedycymmer—Collection at Chapel	1	0	0			
Rev. J. Hathren Davies	0	5	0			
				1	5	0
Capel-y-Groes—Collection at Chapel				1	1	0
Brondeifi— ditto				1	1	0
Llwynrhydowen— ditto				0	15	0
Alltyplacca— ditto	0	10	0			
ditto	0	2	6			
Rev. John Davies	0	5	0			
				0	17	6
Pentre Rhondda—Collection at Chapel..	0	10	0			
Mr. James Thomas, Treherbert	0	5	0			
				0	15	0
Dowlais—Collection at Chapel				0	13	3½
Bwlch-y-fadfa— ditto				0	10	10
Capel-y-bryn— ditto				0	8	10
Cardiff—Miss Davies, Salisbury Road				0	5	0
Gellionen—Mr. David Davies, Gellionenganol				0	2	6
				£49	17	1½

	£	s.	d.		£	s.	d.
To total Receipts as above..	49	17	1½	By amount paid for printing circulars	1	1	0
				Secretary's postages on circulars	0	2	9
				Cheque Book	0	1	0
				Grant to Rev. Ivor Davies	5	0	0
				Grant to Building Fund of Pentre and Clydach Vale Chapels	10	0	0
				Expenses of the Rev. J. Hathren Davies on journey to attend a Meeting of British and Foreign Unitarian Association	2	2	0
				Balance in hand July 22, 1896	31	10	4½
	£49	17	1½		£49	17	1½

WILLIAM JAMES, SECRETARY.
JOHN EVANS, TREASURER.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.

mariad " a'r " Mab afradlon." Ond ffeindiwn drachefn nad yw yr opiniwn hwn yn dal, os gwnawn ni fesur Cristionogaeth wrth yr Hwn y mae hi yn dwyn ei enw. Y mae'r Iesu ei Hun yn rhagori ar bob pregeth neu ddammeg a lefarodd erioed, ac ar bob gweithred a gyflawnodd erioed. Megys ag y mae'r darlunydd yn rhagori ar ei ddarlun goreu; megys ag y mae'r cerfiedydd yn rhagori ar y ddelw oreu a gerfiodd; megys ag y mae'r gallofydd *(mechanic)* yn rhagori ar ei waith mwyaf gorphenedig; megys ag y mae'r bardd yn rhagori ar ei gerdd felusaf, felly hefyd y mae'r Iesu yn rhagori ar ei air neu weithred Ddwyfolaf. Nid yw'r oll a ddywedodd ac a gyflawnodd yn fesuriad o hono.

Edrychwch ar amrywiaeth yr hyn a ysgrifenir am dano—amrywiaeth barn. Cyfoethog fel ag y mae llawer o honynt mewn awgrymiadau, etto, mor dlawd ydynt fel mesuriadau. Treiwch y peth eich hunain. Edrychwch os gellwch chwi wneyd yn well. Edrychwch i chwi gael gweled os na fydd i chwi deimlo terfynau eich hunain mor llym ag a deimlant hwythau. Benthyciwch yr holl frawddegau Eglwysig gyda'r rhai y mae cymmanfaoedd Esgobol wedi ceisio rhoddi desgrifiad o hono Ef a'i waith. Pa mor annghymmesur, aneglur, a chymysglyd, ydynt! Brawddegau purion i ymladd uwch eu penau, ond nid i ddwyn eneidiau at feddwl Crist. Y maent wedi tywallt, y mae'n wir, goleuni tan y ffagodau ar y byd; ond pa mor lleied o'r goleuni ysprydol hwnw sydd yn ymlid ymaith dywyllwch moesol?

Etto, yr oedd yna wirioneddau mawrion yn guddiedig yn rhai o'r hen ddaliadau Eglwysig hyn, yn enwedig yn y rhai hyny sydd yn treio mynegu yr undeb bywydol rhwng Iesu a Duw. Os, yn eu sel i'w anrhydeddu y galwasant Ef yn "wir Dduw o wir Dduw," daethant, efallai, yn agosach i'r gwirionedd yn eu meddwl na'r cyfryw a welent ynddo ddim ond dyn yn unig, pan nad oedd eu syniad am ddyn yn dynodi, fel ag y mae genym ni, unrhyw undeb gwirioneddol â Duw. Dechreuasant hwy gyda'r meddylddrych am Dduw megys yn d'od i lawr i un enaid mawr, ac yn ymgnawdoli yn yr un hwnw wedi ei eni yn wyrthiol. Yr ydym ni, ar y llaw arall, yn dechreu gyda'r un hwnw wedi ei eni yn naturiol, ond wedi ei eni o Dduw hefyd, megys ag y mae holl natur wedi ei geni o Dduw, ac yr ydym yn ei ganfod yn ymgodi i fyny trwy ei natur ysprydol,—natur wedi ei chyffwrdd gan Yspryd Duw; yr ydym yn ei ganfod yn ymgodi i fyny i gyflawn ymwybyddiaeth fod Duw yn preswylio ynddo. Pa mor foreu y daeth yr ymwybyddiaeth hon yn gyflawn ynddo Ef nis gellir, wrth gwrs, ddywedyd; ond, yn ddiweddaf, daeth yn eglur a pharhaol; daeth yn haul ei gyfundrefn ysprydol, yn belen ganolbwyntiol o amgylch yr hon y troai'r oll.

Yn ol yr hen syniad, Duw a *ddisgynodd*, a ddaeth yn gnawd, mewn modd goruwchnaturiol, yn yr Iesu. Yn ol ein syniad ni, gwnaeth y gwir ddyn Iesu, bywyd yr hwn oedd yn Nuw yn ystod yr holl amser, ymgodi i fyny i ymwybyddiaeth fod Duw yn preswylio ynddo, i'r hon ymwybyddiaeth, gallem ninau, yn yr un modd, ym-

godi, trwy yr un deddfau ysprydol. Y mae'r syniad am y Dwyfol yn y dynol yr un yn y ddau. Edrychent hwy arno oddiar yr ochr Ddwyfol, nyni oddiar y ddynol. Meddylient hwy am Dduw megys wedi ymgnawdoli yn yr Iesu, yr unig Fab Duw. Meddyliwn ni am dano fel eglurhad o'r ffordd y mae Duw yn ymgnawdoli yn mhawb o'i blant; canys ni wnaeth yr Iesu ddefnyddio y gwirionedd mawr hwn o fabolaeth i Dduw, yn nghyd a mewnol breswyliad yr Yspryd sanctaidd, am dano Ef ei Hun yn unig. "Pan y gweddioch, dywedwch, Ein Tad." "Canys rhoddir i chwi yn yr awr hono pa beth a lefaroch; canys nid chwychwi yw y rhai sydd yn llefaru, ond Yspryd eich Tad, yr Hwn sydd yn llefaru ynoch." Ac onid hyn yw y dadguddiad uwchaf a dyfnaf yr ydym yn ei gael yn yr Iesu,—y Dwyfol yn y dynol, y Tad yn y Mab?

Yr oedd y gwirioneddau mawrion, a elwir yn awr yn wirioneddau Cristionogol, am fod Cristionogaeth wedi gwneyd defnydd o honynt —y gred yn Nuw, ac anfarwoldeb, yn nghyd a'r rheidrwydd o fywyd da. Yr oeddynt yn gyffredin i feddwl goreu'r byd cyn i'r Iesu wneyd ei ymddangosiad ynddo. Nid Efe hyd y nod oedd y cyntaf i alw Tad ar Dduw, er fod ei bwyslais Ef arno, a'i appeliadau nerthol am gael bywyd perffaith yn gyssylltiedig ag ef wedi ei wneyd megys gwirionedd newydd. Ond yr oedd yna rywbeth *neillduol* yn bod—rhywbeth nad ydym yn ei fteindio mewn un proffwyd yn yr hen amser, dwyreiniol neu orllewinol, preswyliad mewnol Tad, tad yn ei blentyn, bywyd bywyd ei blentyn, enaid enaid ei blentyn, *Duw yn ymddangos yn y cnawd.* Nid ydym yn meddwl am y preswyliad mewnol hwn fel peth goruwchnaturiol, oddieithr fel ag y mae pob profiad ysprydol felly; ond fel y ffordd reolaidd dros yr hon y mae'r Dwyfol yn llifo i'r dynol, gan wneuthur mabolaeth Ddwyfol yn brofiad dynol. Y mae hyn yn dwyn dyn i undeb a chymundeb uniongyrchol à Duw. Hwn yw y mor dwfn yn Nghrist nas gall llinynau haeriadau athrawiaethol neu ddyledswyddau ei blymio. Y mae yn myn'd dan yr oll a *ddywedodd*, ac y mae yn dangos i ni yn yr hyn *ydoedd* y berthynas Ddwyfol rhwng Duw a dyn.

Y mae pob esponiad ar yr Iesu a'i ddylanwad, yn nghyd a'n hangen ni etto o hono yn annghyfartal heb hyn. Gwelwn ynddo Ef fod dynol Dwyfol, cynddelw o ddynoliaeth Ddwyfol; a gwelwn hefyd mai nid cyn y bydd ein ffydd ni yn Nghrist yn ymgodi i'r ffydd oedd yn Nghrist, y ffydd yn yr hon y gwnaeth Efe fyw a llafurio dros Dduw a dyn,—ffydd nid yn unig yn nghariad Tad, eithr yn mhreswyliad mewnol Yspryd y Tad, gwelwn mai nid cyn hyny y gallwn ni sylweddoli cyflawn wynfyd ei genadwri a'i gariad achubol. Ond, fel ag mae hwn yw gwirionedd ardderchoçaf ein crefydd, felly hefyd efe yw yr anhawddaf i'w feddiannu. Y mae cyfartaledd y bywyd dynol mor isel, anysprydol, a materol. Y mae ei weledigaethau o bethau ysprydol mor bwl; y mae ei deimlad o'r Dwyfol yn myd natur a'r bywyd dynol mor eiddil, nes bod byw yn

yr ymwybyddiaeth glir fod Tad-Yspryd yn trigo ynom, fel ag y gwnaeth yr Iesu, yn *ymddangos* yn anmhossibl.

Nid ydym yn canfod digon o enghreifftiau o'n cwmpas i gyfiawnhau y ffydd. Gadewch iddi fod felly; yna y mwyaf i gyd yw ein hangen i fynwesu yr un eglurhad godidocaf y gwyddom am dano, sef wrth edrych arno Ef, gallwn ffeindio yr hyn nad ydym yn ei gael yn ereill, ac ynom ein hunain, a chael ein gwneyd i deimlo na fydd i'r gwahaniaeth rhwng yr hyn a *ddylai* dyn fod a'r hyn *ydyw* ddim yn wastadol yr hyn yw yn awr; nad yw y gweithredol, fel ag y gwelir ef genym ni y dydd heddyw, yn derfyn i'r possibl; ac y bydd i'r ymwybyddiaeth hon fod y Dwyfol yn trigo ynom, ymwybyddiaeth i fesur mor helaeth yn yr Iesu, ddyfod yn brofiad dynoliaeth berffeithiedig.

Weithiau, pan y'n cymhellir i dderbyn yr Iesu fel yr unig nodded rhag llid Duw, neu fel yr aberth iawnol, heb yr hon nid allai Duw faddeu, yr ydym yn troi ymaith, efallai, ac yn edrych fry i'r wybren nosawl, neu i ddyfnderoedd dyfnach yr enaid dynol. Yr oedd hyny yn dda; oblegyd yn y troad ymaith ymddangosiadol hwn oddiwrth Grist, ffeindir Ef drachefn yn fynych mewn ffurf brydferthach, ac mewn yspryd mwy gwir Ddwyfol.

Yr ydym yn edrych ymaith oddiwrth y Crist Eglwysig, ac wele! yn ystod rhyw awr dawel o fyfyrdod, neu brofiad dwfn personol, yr ydym yn ffeindio y gwir Grist, ysprydol Fab Duw, yr hwn, yn ei ffordd, ei wirionedd, ei fywyd, sydd o hyd yn arwain meddwl goreu'r byd.

Y mae rhywun wedi gosod allan y profiad hwn o golli a ffeindio Crist yn y llinellau tarawiadol a ganlyn, eithr mai cyfieithad ydynt genyf fi :—

Crist yr Arglwydd! Yr oeddwn wedi clywed am danat fel un allan o dri Pherson anfeidrol, ac ymgrymais i lawr mewn math o fyg-arswyd pan glywais son am dy enw (a bendithiwyd fy enaid gan y Crist ofnadwy hwn, ac yna *fe'm gadawodd*).

Crist yr Oen! Yr oeddwn wedi meddwl am danat fel un a dalodd fy nyled, a dywedwyd wrthyf mai deddf gyfiawn orchymynodd i ti wneyd hyny (a bendithiwyd fy enaid gan y Crist hwn, allan o ystlys yr hwn y rhedai gwaed, ac yna *fe'm gadawodd*).

Crist y brawd! Yr wyf wedi darllen am danat a'th fywyd yn Ngalilea, yn nghyd a'th dosturi Dwyfol, O Fab y dyn! (A bendithiwyd fy enaid gan y Crist *bendigedig* hwn, ac y mae *yn aros gyda mi*).

Crist yr Anwylyd! A gaf fi fyned gyda thi? Ac a ddeui di gyda mi? Dos! ac achub yr enaid hwn o'r eiddof! Nid all neb arall wneuthur hyny. (A bendithiwyd fy enaid gan y *cyfaill* hwn, Crist, ac y mae *o hyd yn aros gyda mi*).

Oes, y mae y peth hwnw yn yr Iesu, yr Hwn, er gwaethaf pob cyfnewidiad barn am dano, sydd yn *aros*. Deil ei le ei hun yn y byd Cristionogol, nid o herwydd ein bod ni yn caniatau iddo, ond o herwydd hawl Ddwyfol. Nid ei ddysgyblion a'i dewisasant Ef,

ond Efe a'u dewisodd hwy, ac y mae yn dewis etto yn barhaus. Nid yr Eglwys Gristionogol a'i creodd Ef, ond Efe a greodd yr oll ag sydd oreu yn yr Eglwys, a gwna ei hail-greu hi etto fwy-fwy i ddelw ei Yspryd ei Hun.

Yn awr, tra y mae llawer yn ein mysg y tu allan i'r cylch Cristionogol, fel ag y meddyliant eu bod yn nodi allan agweddau newyddion o'r llywyddiaeth foesol ac ysprydol a berthyn i'r Iesu, gallwn yn dda lynu wrtho fel ein Harweinydd ysprydol, a'i alw etto wrth yr enw parchedig y galwyd Ef gan ei ddysgyblion boreuol—ein Hathraw, ein Harglwydd. Ystyr efengylaidd y gair "Arglwydd," yw Athraw yn unig. Rhoddwyd iddo enw arall wedi dydd ei farwolaeth, ond pan yr oedd Efe yn mhlith ei ddysgyblion, Athraw yn unig olygid gan y gair "Arglwydd." Ond ystyrir y gair mor gyffredin gan ein cyd-Gristionogion fel yn golygu Duw, nes anfynych y defnyddir ef gan lawer o Undodiaid selog rhag ofn y cam-ddeallir hwy. Pa un a yw yr ysgoad hwn oddiwrth deitl cyntefig yr Iesu, o herwydd fod cynnifer wedi gwyrdroi ei ystyr, yn beth doeth ai peidio sydd gwestiwn agored.

Y mae amserau yn bod, wrth fod un yn myfyrio ar fawredd a gwynfydedigrwydd bywyd yr Iesu, fod yr enw "Arglwydd" fel ag y cawsai ei ddefnyddio gan ei ddysgyblion boreuaf, yn ymddangos megys yn ffitio ei feddwl mewnol yn well nas gall un enw arall wneyd. Y mae yn dyfod megys a bendith ganddo.

Dywedir wrthyf fi fod yn rhaid i mi ei alw yn Arglwydd, neu nad wyf Gristion, ac mi wrthryfelaf. Nid felly y dysgais I Grist. Ond gadawer i mi weled y gogoniant Dwyfol yn ei gariad hunan-aberthol at ddyn; gweled sut y mae ei fabolaeth Ddwyfol yn *dype* ac yn sicrhad o fabolaeth Ddwyfol dynoliaeth; gweled sut y mae yr ymgnawdoliad ynddo Ef yn rhagarwyddo ac yn eglurhau ymgnawdoliad Duw yn yr hil, a gallaf finau ddweyd, gyda chalon ddiolchgar a pharchedig, "Dos, Arglwydd Iesu, a gad i mi brofi *dyfnach* fedydd o'th wirionedd a'th Yspryd a'th fywyd."

Hir y gofynir y cwestiwn, "Beth debygwch chwi am Grist?" Gofynwyd Ef yn foreu, hyd y nod pan oedd yr Iesu yma ar y ddaear; ac nid yw meddyliau deunaw cant o flynyddau ond wedi eangu a dyfnhau y dyddordeb ynddo. Perthyna i bob ysgol o gred Gristionogol i wneyd ei chyfran ei hun. Gydag ewyllys da a chariad at bawb, yr ydym ninau, fel enwad Undodaidd, yn gwneyd yr eiddom ni, gan ddiolch fod dan yr holl opiniynau am yr Iesu y peth hwnw ynddo sydd "yr un ddoe ac heddyw, ac yn dragywydd."

CYNLLUN ADDYSG NEWYDD MR. GEE.

Diau y ca'r erthygl arweiniol a ymddangosodd yn y *Faner* am Awst y 15fed gryn dipyn o sylw gwleidyddwyr Cymreig yn ystod yr ychydig wythnosau sydd i ddyfod. Nid am fod y cynllun ei

hun yn teilyngu'r sylw yma, o herwydd anhawdd fuasai i'w awdwr i ffurfio cynllun at yr hwn y gellid anelu cymmaint o fwäau o wahanol gyfeiriadau, a phob un o honynt yn cael effaith ddinystriol ar y cynllun; nac ychwaith, mor bell ag y mae a fyno'r cynllun â'r cwestiwn dyrus o addysg grefyddol, gynllun mwy anymarferol, annoeth, a pheryglus i wir gynnydd y werin nâ'r cynllun dan sylw. Ond dywedaf y bydd yn debyg o dynu cryn sylw am dipyn o amser ar gyfrif enwogrwydd ei awdwr, Mr. Gee. Mae Mr. Gee, trwy ei oes hirfaith, wedi bod yn Rhyddfrydwr o'r iawn ryw, ac yn arweinydd i'w genedl yn ngwir ystyr y gair yn mhob mudiad oedd â'i amcan i lesoli a dyrchafu ei genedl; ac y mae pob ymdrech o blaid sicrhau mwy o ryddid, o chwareu-teg, ac o gyfiawnder, yn wladol a chrefyddol, wedi ei gael ef yn amddiffynydd dewr a ffyddlon. Mae wedi bod yn wrthddrych gwawd ac atgasedd, erledigaeth a dialedd rhai dosparthiadau o ddynion, o herwydd ei fod yn elyn mor annghymmodlawn i bob trais a chaethiwed, ac yn eu dynoethi yn ddidrugaredd; etto, nid yw erioed wedi cymmeryd ei ddychrynu gan un o'r pethau hyn, ac y mae trwy'r blynyddau wedi glynu yn ddewr wrth achos y bobl. Ac nid yw yn debyg yr annghofia Cymru ei ffyddlondeb iddi yn ystod ei oes hirfaith; ond y mae yn amheus genyf a gaiff ei waith ei werthfawrogi gan y genedl i'r graddau y mae yn haeddu. Ac ar gyfrif ei enwogrwydd fel gwleidyddwr, a'r parch a deimlir tuag ato gan y mwyafrif mawr o'r genedl Gymreig, telir yn ddiamheu gryn lawer o sylw i'r cynllun addysg sydd wedi ei gynyg ganddo i sylw y cyhoedd.

Mae yn y cynllun lawer iawn o ddiffygion, yn fwy neillduol yn y rhan hono o hono lle yr ymdrinia â'r pwnc o addysg grefyddol yn ein hysgolion. Ni wneir sylw ond o'r adran hon yma. Yn ol cynllun Mr. Gee, rhoddir pedwar diwrnod a hanner at gyfranu addysg fydol, a'r hanner diwrnod arall, sef y prydnawn Gwener, at gyfranu addysg grefyddol. Wele y rhan fwyaf pwysig o'r adran yn ngeiriau Mr. Gee ei hun:—

"Prydnawn Gwener fydd yr unig adeg i weinyddu yr addysg grefyddol, a bydd yr holl blant mor rwymedig i fod yn yr ysgol y prydnawn hwnw ag ar ddyddiau ereill o'r wythnos. Gellir tybied y bydd mewn llawer ysgol yn y trefydd blant perthynol i Eglwys Loegr, i'r Pabyddion, ac i'r Iuddewon, ac feallai i rieni fydd yn gwrthod caniatau i'w plant dderbyn addysg grefyddol o gwbl, ac i Ymneillduwyr. Yr ydym yn enwi y nifer uchod i ddangos y gellir cyfarfod â'r anhawsderau mwyaf. Os felly, bydd yn hawddach cyfarfod â'r anhawsderau mewn ysgolion lle y bydd llai o amrywiaeth. Y prydnawn, agorir yr ysgol fel arferol gan y prif athraw, neu gan un o'r is-athrawon, a chanddynt hwy yn unig. Ar ol hyny, gorchymyn yr athraw i'r holl blant fydd yn perthyn i'r Eglwys i fyned i'r ystafell (*class-room*) Rhif 1; y Pabyddion, i Rif 2; yr Iuddewon, i Rif 3; y gwrthodwyr, i Rif 4; a'r Ymneillduwyr, os bydd rhai o honynt yn hawlio addysg grefyddol ar wahan, i Rif 5. Ond yr wyf yn tybied yn gryf y byddant hwy yn foddlon i'r addysg

a gyfrenir gan yr athraw. Gyda'r dosparthiad hwn, ni fydd i neb o'r clerigwyr gyffwrdd, na bod yn bresennol yn yr ysgol ar yr adeg. Yr athraw yn unig fydd i wneyd hyn." Ar ol y dosparthiad hwn, ni fydd gan neb ond y clerigwyr hawl i fyned i'r gwahanol ystafelloedd. Bydd y prif athraw yn cyfranu'r addysg grefyddol i'r plant fyddent heb gael eu dosparthu yn unol â'r drefn uchod, yr hon addysg fydd i fod yn un hollol anenwadol.

Mae y rhan bwysicaf o'r cynllun wedi ei roi yn ngeiriau Mr. Gee ei hun, a'r gweddill mewn crynodeb byr. Mae'r dyfyniad a'r crynodeb yn ddigon i'r darllenydd i ffurfio syniad am yr hyn a gynnygir ynddo mewn perthynas i addysg grefyddol.

(1) O'r braidd y mae eisieu dweyd dim yn ychwaneg am dano na'i fod yn un hollol anymarferol, mor bell ag y mae a fyno ag addysg grefyddol, ac ni chredaf fod eisieu i neb bryderu y bydd yr un gwladweinydd byth mor ffol a chynnwys dim o'r fath beth. Enwn yn y dyfyniad uchod Eglwys Loegr, y Pabyddion, yr Iuddewon, y gwrthodwyr, a'r Ymneillduwyr. A chaniatau y byddai yr Ymneillduwyr yn boddloni ar yr addysg grefyddol a gyfrenid gan y prif athraw, byddai angen yn mhob ysgol lle y ceid y dosparthiadau uchod (ac fe'u ceir yn y rhan fwyaf o ysgolion ein trefydd mawr) am bump o wahanol ystafelloedd. Nid oes eisieu tref boblog iawn, ychwaith, cyn y ceid plant yn perthyn i bob un o'r enwadau uchod. Ac mor bell ag y mae fy adnabyddiaeth o'r enwadau Ymneillduol yn fy ngalluogi i farnu, nid yw yn annhebyg na fyddai yr enwadau hyn mewn llawer o fanau yn hawlio yr un chwareu-teg a'r Eglwyswyr a'r Pabyddion a'r Iuddewon. Os felly, beth fyddai'r canlyniad? Barned y darllenydd. Credaf fod y cynnyg hwn yn un mor hollol anymarferol fel nad oes braidd angen dweyd rhagor am dano.

(2) Melldith benaf Cymru yn y dyddiau hyn yw enwadaeth. Dyma yw ei melldith wedi bod trwy'r ganrif. Cydnebydd pob dyn sydd yn gwybod rhywbeth am Gymru gymmaint a hyn, yn enwedig os yn gyfarwydd â'r teimladau sydd yn ffynu yn mhlith enwadau Ymneillduol Cymru. Mae enwadaeth yn ymlusgo i fewn i bob man—i appwyntiad ysgolfeistri (elfenol a chanolraddol), i etholiadau o bob math, ac yn enwedig i etholiadau Byrddau Ysgol, i appwyntiadau swyddogion i lawr hyd at gasglwr trethi mewn plwyfi bychain gwledig. Mae'r hanes am rai o'r appwyntiadau diweddar yn dangos mor anmhossibl ydyw gan y mwyafrif i ymgodi uwchlaw enwadaeth gul, hyd y nod mewn materion lle y gellid meddwl na ddylai enwadaeth gael lle i wthio ei ben o gwbl. Ac os ydyw enwadaeth, pan yr edrychir arno yn ddiragfarn a theg, yn beth mor ffiaidd ac atgas, ai nid gwell fyddai ceisio yn mhob modd ei ddiwreiddio yn llwyr? Pe b'ai yn bossibl i'r cynllun uchod byth gael ei ddwyn i weithrediad, byddai ei effaith yn sicr o fod yn hollol groes i'r hyn y dywedir gan Mr. Gee fyddai—nid diddymu yr yspryd enwadol, ond yn hytrach byddai yn creu yspryd enwadaeth yn y plant gyda eu bod yn dechreu cerdded bron.

Beth ellid ei ddyfeisio yn fwy effeithiol i greu yspryd enwadaeth yn y plant nâ thrwy eu dosranu i wahanol ystafelloedd, yn ol y grefydd a broffesid gan eu rhieni? Credaf, os gellir enwi rhyw fan yn Nghymru heddyw lle y mae enwadaeth wedi diflanu, neu yn hytrach yn cael ei gauad allan yn llwyr, mai yr ysgoldy yw hwnw. Anfynych iawn y gwelir plant yn siarad am y cyfryw bethau. Gadawant hyny i blant sydd wedi tyfu i gyflawn oedran. Ond byddai sefydlu cynllun tebyg i'r un a gynnygir uchod yn sicr o ddeffroi'r yspryd pleidgar ac enwadol yn y plant eu hunain. Ac os ydyw enwadaeth yn gryf yn Nghymru heddyw, beth pe sefydlid y dull uchod o gyfranu addysg grefyddol yn yr ysgolion dyddiol? Byddai enwadaeth yn y genedlaeth nesaf yn gryfach nag erioed; ac y mae hyn drachefn yn condemnio y cynllun yn y modd mwyaf trwyadl.

(3) Mae Mr. Gee yn rhy obeithgar pan y dywed "na fydd i deimladau enwadol ymddangos yn newisiad yr athrawon," am y rheswm "na oddefir i'r athrawon weinyddu ond addysg Feiblaidd syml yn yr ysgolion." Mae cymmaint o eiddigedd rhwng y gwahanol enwadau Ymneillduol a'u gilydd, mewn llawer ardal, ag sydd rhyngddynt a'r Eglwys Wladol, a mwy yn fynych. Yr wyf yn anturio dweyd hyn oddiar wybodaeth sicr. Clywir llawer o son am fwy o undeb rhwng yr enwadau; ond gellir anturio dweyd nad yw'r dymuniad am undeb wedi cael gafael gref yn un o'r enwadau Ymneillduol yn Nghymru etto. Gwn ychydig am y modd y mae enwadaeth gul wedi bod yn gweithio yn appwyntiad prif athrawon ysgolion canolraddol mewn rhai siroedd yn Nghymru, ac y mae yn anhawdd credu y gwnai cynllun Mr. Gee yr un gwahaniaeth yn y cyfeiriad hwn.

Fy nghred ddiysgog yw, er cymmaint o ymdrechion sydd wedi eu gwneyd i benderfynu y pwnc dyrys hwn yn foddhaol, na lwyddir i ffurfio yr un cynllun fydd yn boddloni pob dosparth o'r boblogaeth, ac mewn materion crefyddol dylai'r lleiafrif gael eu ffordd eu hunain yn ogystal a'r mwyafrif. Yr unig ffordd i ddyfod allan o'r anhawsder yw cadw addysg grefyddol allan o'r ysgolion dyddiol yn gyfangwbl, a gadael i'r eglwysi crefyddol y gwaith o ofalu am addysg grefyddol y plant. Mewn gair, gwaith yr eglwysi *yw* cyfranu addysg grefyddol, ac y mae'r eglwysi, trwy geisio trosglwyddo y gwaith i'r ysgolion dyddiol, yn dangos eu bod naill ai am ochelyd gwaith sydd yn perthyn iddynt hwy i'w wneyd, neu ynte eu bod yn annghymhwys i'w wneyd. Nis gallaf beidio sylwi fod y cynllun uchod, mor bell ag y mae a fyno ag addysg grefyddol, wedi ei sylfaenu ar egwyddor sydd yn ymylu at fod yn Doriaidd; ac y mae yn syndod sut y mae dynion ydynt yn Rhyddfrydwr mewn materion gwleidyddol yn Geidwadwyr unwaith y dechreuant ymdrin â materion crefyddol.

A. B.

YR HEN WR DALL.

Mi fuais inau'n gweled gynt, ond nid wy'n gweled 'nawr;
Wrth daflu golwg dros fy hynt, 'rwy'n gwel'd amrywion mawr;
Adgofiaf ddyddiau 'mebyd llon pan chwariwn ar y ddol,
Pan wibiai'm llygaid, llamai'm bron, heb ddawr yr aeth oedd 'nol.

Dynesaf at y ffenestr, er mwyn gwel'd pwy heibio ant,
Yn ofer hyd fy llaw-ffon fer, ni wel fy llygaid bant;
'Rwy'n clywed trwst ar hyd y stryd, swn traed yn myn'd a d'od,
Nis gwn pwy ydynt yn y byd, pa ryw, pa faint, pa o'd.

Mi safaf 'nawr wrth y mur hwn, 'rwy'n ofni myn'd yn mlaen,
Rhyw berygl, oddiwrth ba un nis gwn, all fy niweidio'n lan;
Gofynodd hwna p'odd yr own, nis gwn yn iawn pwy yw,
Am allu ei weled rhwydd y rhown yr oll sy' geny' i fyw.

'Cha'i lygaid ereill byth ond rhai'n tra b'wyf yr ochor hyn,
Hen angeu'n fuan drostynt daen ei law yn oer a thyn;
Hwy gauant, hwy faluriant dro mysg y priddellau mân,
Ond gwawria dydd,—dydd llon i'm co', caf weled fel o'r blaen.

Y Parch. William Thomas, M.A.
(Gwilym Marles), 1834-79.

Mehefin, 1854.

Adran yr Ysgol Sul.

GWERSI AR FYWYD IESU GRIST, FEL EI COFNODIR YN YR EFENGYL YN OL MARC.

Gwers I.—Rhagarweiniol.

Nodyn 1.—Amcenir y wers hon a'r rhai dylynol i arwain yn naturiol at fywyd Iesu. Sylwir yn fyr ar nodwedd y tri hanes cyntaf am dano, a'r elfenau hyny yn amgylchiadau ei wlad, yn mywyd ei genedl, a'i fywyd annghyhoedd ei Hun oeddynt yn barotoad ar gyfer ei waith cyhoeddus yn Ngalilea a Jerusalem. Am wybodaeth bellach, gweler "*Lessons on the English Bible*, by Frank E. Millson, -/8," a "*First Lessons on the Bible*, by E. H. Hall, 1/6," y ddau i'w cael oddiwrth y "Sunday School Association, Essex Hall, Strand, London."

Y TESTYN EUFAIDD.—"*Eithr y mae genym y trysor hwn mewn llestri pridd, fel y byddai godidowgrwydd y gallu o Dduw, ac nid o honom ni.*"—2 COR. iv. 7.

Y Beibl.—Mae Efengyl Marc yn ffurfio rhan o lyfr sydd, yn ddiamheu, y goreu, y mwyaf rhyfeddol, a'r mwyaf cyfoethog yn ei ddylanwadau dawnus o holl lyfrau'r byd. Nid yw yn syndod ei fod, o herwydd y parch a'r cyssegredigrwydd sydd wedi crynhoi o'i amgylch, wedi dyfod i gael ei alw "Y Beibl," neu "Y Llyfr;" ond nid un llyfr ydyw. Mae wedi ei wneyd i fyny o lawer o wahanol lyfrau, a gawsant eu hysgrifenu ar wahanol amserau.

Llyfrgell yr Iuddewon.—Bu amser pan y gelwid y casgliad hwn mewn iaith arall "Y Llyfrau," a than yr enw hwn, gallwn edrych arno fel llyfrgell yr Iuddewon, yn cynnwys eu hanes, eu deddfau, eu hystraeon, eu hen arferion, bywydau eu proffwydi a'u dynion mawr, eu barddoniaeth a'u hemynau, pregethau eu hathrawon, eu meddyliau goreu a'u crefydd.

Yr Hen Destament a'r Testament Newydd.—Dyma ddau raniad mawr y Beibl; ond paham y gair "Testament?" Mae y gair Lladin hwn, sydd yn golygu *gwyllys*, fel mae gwaethaf y modd, yn gyfieithad annghywir o air Groegaidd sydd yn golygu *cyfammod* neu *gytundeb*. Yr oedd yr hen feiblau Groegaidd, rhyw chwech can' mlynedd yn ol, yn myned dan yr enw "Llyfrau yr Hen a'r Newydd Gyfammodau." "Ond," meddech chwi, "paham Cyfammod?" Wel, rhoddid yr enw "cyfammod" i lyfrau cyssegredig yr Israeliaid, oblegyd edrychent ar eu crefydd fel cyfammod rhwng Duw a'r genedl a sefydlwyd ar Sinai. Darfu i enw'r grefydd gael ei drosglwyddo i'r llyfrau, yn gyntaf i'r Pum' Llyfr, ac wedi'n i'r gweddill. Yn nghwrs amser dechreuodd y Cristionogion gymhwyso yr enw hwn i'w llyfrau crefyddol eu hunain, ac er mwyn cyfleusdra, daeth pobl, yn y diwedd, i alw un casgliad o lyfrau yn Hen Destament, a'r llall yn Destament Newydd.

Y Cyfieithad Cymreig.—Cyfansoddwyd yr Hen Destament, gan mwyaf, yn yr iaith Hebraeg, a'r Testament Newydd yn yr iaith Roeg. Yn mhlith yr amrywiol gyfieithadau, sydd wedi eu gwneyd mewn amseroedd hen a diweddar, saif yr un Cymraeg yn uchel ar gyfrif ei ragoriaethau. Er fod rhanau wedi eu cyfieithu o'r blaen, y gwaith cyntaf o bwys oedd cyfieithad William Salesbury o'r Testament Newydd, a ymddangosodd yn 1567. Desgrifir hwn fel yn wrthun o ran orgraff, yr iaith yn anystwyth, ac hefyd yn anneallus yn ein dyddiau ni.

Cyfieithad Dr. Morgan.—Darfu i dros ugain mlynedd basio heibio cyn i gyfieithad cyflawn o'r Beibl ymddangos. Dygwyd hwn allan yn 1588, gan Dr. William Morgan, Ficer Llanrhaiadr, Mochnant, yn Sir Ddinbych, ac wedi hyny, Esgob Llandaf a Llanelwy. Darfu i Mr. Gwenogfryn Evans argraffu rhan o hono, sef Llyfr Job, yn llyfryn ar ei ben ei hun yn 1888. Yr argraffiad nesaf a gyhoeddwyd yn 1620, gan Dr. Richard Parry, olynydd Dr. Morgan yn Esgob-

aeth Llanelwy. Darfu i Dr. Parry, gyda chynnorthwy yr ysgolor enwog, Dr. John Davies, ficer Mallwyd, yn Sir Feirionydd, wneyd diwygiadau helaeth yn nghyfieithad Dr. Morgan, a hwn, gydag ychydig iawn o gyfnewidiadau, sydd wedi ei ail-argraffu byth oddiar hyny.

GOFYNIADAU I SAFON 3 A 4.

1. Adroddwch y testyn euraidd. 2. Cymharwch y Beibl â llyfrau ereill. 3. Paham y daeth i gael ei alw "Y Beibl" neu "Y Llyfr?" 4. Ai un llyfr ydyw? 5. Fel casgliad o lyfrau, pa olwg allwch chwi gymmeryd arno? 6. Sut mae'r Beibl yn cael ei ranu? 7. Paham y defnyddir y gair "Testament?" 8. Sut y daeth y gair "cyfammod" i gael ei gymhwyso at lyfrau cyssegredig yr Israeliaid? 9. Sut at lyfrau cyssegredig y Cristionogion? 10. Rhoddwch hanes y cyfieithad Cymraeg.

GOFYNIADAU I SAFON 4.

1. Pa nifer o lyfrau sydd yn yr Hen Destament? 2. Paham mae y Beibl mor bwysig i ni? 3. A ydyw'r Beibl yr un mor bwysig a dyddorol drwyddo i gyd? 4. Enwch rai o ranau goreu y Beibl. 5. A oes llyfrau sanctaidd neu gyssegredig heblaw y Beibl? 6. Pa gasgliad o lyfrau doeth a da sydd yn cael ei ychwanegu ambell waith at ein Beibl ni? 7. Pa beth sydd yn gwneyd llyfr yn sanctaidd? 8. A oes rhyw hanes yn sanctaidd yn eich golwg chwi heblaw hanesion y Beibl? 9. A wyddoch chwi am ryw farddoniaeth gyssegredig heblaw y Salmau?

GWERS II.—RHAGARWEINIOL.—Y TESTAMENT NEWYDD.

Y TESTYN EURAIDD.—"*Pob Ysgrythyr, ysprydoledig gan Dduw, sydd hefyd fuddiol i athrawiaethu, i argyhoeddi, i gerydd u, i hyfforddi mewn cyfiawnder, fel byddo dyn Duw yn berffaith, wedi ei berffeithio i bob gweithred dda.*"—2 TIM. III. 16, 17. (*Cyfieithad diwygiedig*).

Beth yw y Testament Newydd?—Casgliad o lyfrau, fel yr Hen Destament ydyw, gan wahanol awduron, ond cyfyngedig o ran eu tarddiad, i ryw gan' mlynedd o amser, o'r flwyddyn 50, efallai, i 150. Cawn, yn y rhan gyntaf, hanes bywyd ac addysgiadau Iesu Grist; yn yr ail ran, ysgrifeniadau ei ddysgyblion a'i ganlynwyr, yn nghyd a hanes sefydliad yr Eglwys Gristionogol. Gellir ei ddosranu yn mhellach fel y canlyn:—

I. Bywgraffiadau o Iesu Grist.—Matthew, Marc, Luc, ac Ioan.

II. Actau yr apostolion.—Neu hanes Petr a Phaul, gan mwyaf, eu llafur a'u hymdrechion er lledaeniad yr Efengyl.

III. Epistolau Paul.—(Rhai o honynt wedi eu priodoli yn an-

nghywir iddo). 1. At eglwysi—Rhufeiniaid, Corinthiaid. 2. Galatiaid, Ephesiaid, Philippiaid, Colossiaid, Thessaloniaid (2). 2. At bersonau neillduol—Timotheus (2), Titus a Philemon.

V. Yr Epistol at yr Hebreaid.

VI. Y Saith Epistol Cyffredinol.—Iago, Pedr (2), Ioan (3), Judas.

VII. Datguddiad.—Yn sefyll ar ei ben ei hun fel llyfr o weledigaethau.

Y Drefn Amseryddol.—Dylid sylwi nad yw llyfrau y Testament Newydd ddim wedi eu trefnu yn ol amser eu cyfansoddiad. Fel mater o ffaith y llyfr blaenaf o ran amser yw Epistol cyntaf Paul at y Thessaloniaid, yr hwn a ysgrifenwyd oddeutu y flwyddyn 54. Yr oedd Paul yn debygol wedi marw cyn i un o'r Efengylau gael eu hysgrifenu. Mae amseriad ac awduraeth llawer o'r llyfrau yn ansicr, ond nid yw hyny yn cyffwrdd o gwbl a'u gwerth, ac a'r gallu maent wedi feddiannu erioed i feithrin natur ysprydol dyn.

Ysprydoliaeth y Beibl.—Syniad cyffredin yw fod y meddyliau a osodir allan yn y Beibl, ac hyd y nod y geiriau sydd yn eu trosglwyddo, wedi dyfod trwy ddatguddiad neillduol oddiwrth Dduw, ac fod y Beibl yn ei holl ranau yn anffaeledig. Mae y syniad eithafol hwn yn darfod yn raddol. Nid yw y Beibl yn anffaeledig, gan fod ynddo lawer o ddiffygion ac anmherffeithderau. Mae'r aur pur i'w gael yma, ond rhaid cloddio am dano ar ambell i faes trwy lawer o ddefnyddiau digon cyffredin. Yn y testyn euraidd ar ddechreu'r wers yma, mae Paul yn gosod allan faen-prawf neu *dest* ysprydoliaeth. Mae rhanau helaeth o'r Hen Destament, ac yn neillduol o'r Testament Newydd, yn sefyll y prawf yn fuddugoliaethus. Maent wedi bod, ac maent heddyw, yn fuddiol i athrawiaethu, i argyhoeddi, &c. Mewn miloedd o fanau yn y Beibl mae ysprydyn wedi dyfod i gyffyrddiad â meddwl Duw, ac mae yna lewyrch Dwyfol yn cael ei daflu ar leoedd tywyll profiad a thynged dyn. Dysgleiria'r pelydrau o hyd yn ngwyneb yr hwn sydd yn darllen, ac yn eu goleuni fe wel myrdd o bererinion, er mynych grwydro ar eu taith, y Ffordd, y Gwirionedd, a'r Bywyd.

GOFYNIADAU I SAFON 3 A 4.

1. Adroddwch y testyn euraidd. 2. Beth yw y Testament Newydd? 3. Tu fewn i ba gyfnod yn debygol y cafodd ei ysgrifenu? 4. Beth mae'r rhan gyntaf yn gynnwys? 5. Beth mae'r ail? 6. Mae y ddwy ran yma yn cael eu *dosranu* yn mhellach: enwch y mân raniadau. 7. Pa hanes gewch chwi yn Actau'r Apostolion? 8. Enwch Epistolau Paul sydd wedi eu hysgrifenu at bersonau neillduol. 9. Pa lyfr sydd yn sefyll ar ei ben ei hun? 10. Pa lyfr ydyw'r henaf yn y Testament Newydd? 11. A ydyw o bwys mawr ein bod yn gwybod y *date*? 12. Beth yw'r syniad cyffredin am ysprydoliaeth y Beibl? 13. Dangoswch pa mor anhawdd ydyw i dderbyn y syniad hwnw. 14. Pa Ysgrythyr sydd yn ysprydoledig yn ol Paul? 15. Beth yw *test* ysprydoliaeth ynte?

GOFYNIADAU I SAFON 4.

1. Pa nifer o lyfrau sydd yn y Testament Newydd? 2. Pa bryd y cafodd y Testament Newydd ei ysgrifenu? 3. Pa lyfrau ydynt yr henaf? 4. A ydyw y Testament Newydd yn cynnwys yr holl lyfrau a ysgrifenwyd yn y cyfnod hwnw? 5. Os nad ydyw, beth ddaeth o'r llyfrau? 6. Pwy oedd yn penderfynu pa lyfrau oedd i fod i fewn? 7. A ydyw'r penderfyniad wedi bod yn ddoeth ar y cyfan? 8. Paham y daeth llyfrau y Testament Newydd yn gyssegredig yn ngolwg y Cristionogion? 9. A ydyw'r Beibl yn cynnwys gair Duw? 10. Beth yw gair perffaith Duw? 11. A ydyw Duw yn siarad wrth y byd yn awr? 12. Yn mha beth mae gwerth mawr y Beibl yn gynnwysedig?

GWERS III.—RHAGARWEINIOL.—Y TAIR EFENGYL CYNTAF.

Y TESTYN EURAIDD.—"*Nid oes arnaf gywilydd o Efengyl Crist: oblegyd gallu Duw yw hi er iachawdwriaeth i bob un a'r sydd yn credu*"—RHUF. I. 16.

Nodyn 2.—Darllener Luc i. 1—4, a chwilier allan yr holl gyfeiriadau a wneir yn y gwersi canlynol at adnodau o'r Beibl.

Yr Efengylau.—Addefir yn gyffredinol na ysgrifenwyd dim am Iesu Grist am yspaid un genedlaeth o leiaf ar ol ei farwolaeth. Ni theimlid fod angen am hyny, am fod yr Apostolion yn fyw i ddweyd yr hanes. Hefyd, daeth ei ganlynwyr i gredu y byddai'r Iesu yn dychwelyd ar gymmylau'r nef i sefydlu ei deyrnas ar y ddaear, Marc ix. 1, Actau i. 11. Felly, gwaith ofer fyddai ysgrifenu hanes un ag oedd i wneyd ei ail-ymddangosiad mor fuan yn eu plith; ond fel yr oedd yr ail-ddyfodiad yn cael ei oedi, a chyfoedion Iesu yn marw ymaith o un i un, ymgymmerodd gwahanol ysgrifenwyr a chofnodi yr hanesion am dano a gludid o ben i ben yn nghylchoedd y dysgyblion boreu.

Yr Hanesion Boreu.—Yn y modd hwn, daeth i fodolaeth lawer o gasgliadau a gynnwysant yr hanesion boreu am fywyd ac addysgiadau Iesu Grist, Luc i. 1. Yn yr efengylau sydd gyda ni yn awr, gwneir ymgais i osod trefn ar y defnyddiau oedd mewn llaw. Tra mae llawer o wahaniaeth barn gyda golwg ar amser eu cyfansoddiad, ysgrifenwyd hwy, yn fwyaf tebygol, yn y drefn hon,—Marc, Matthew, Luc, ac Ioan.

Paham y tair Efengyl gyntaf?—Mae y tair gyntaf yn sefyll ar eu penau eu hunain ar wahan oddiwrth y bedwaredd am y rhesymau canlynol:—1. Addefir fod Efengyl Ioan yn llawer diweddarach, o ran amser, gyda'r canlyniad fod syniadau newydd wedi dyfod i fewn mewn perthynas yn neillduol i Berson Crist. 2. Mae y *scene*, neu yr olygfa, o'r dechreu hyd y diwedd braidd, yn Judea, ac nid yn Ngalilea. 3. Mae gwahaniaeth mawr yn newisiad y mater. Nid oes yma ddim son am fedydd Iesu; dim am ei demtiad a'i wedd-

newidiad, dim pregeth ar y mynydd na dammegion. 4. Dygir i fewn bersonau newydd, megys Nicodemus, Nathanael, y wraig o Samaria ; lleoedd newydd, megys Cana, Ainon, Salim, a Sychar. 5. Dim ond ychydig wyrthiau a gofnodir, a'r rhai hyny yn neillduol i'r bedwaredd Efengyl ei hun. 6. Mae y pregethau hirion sydd yn nodweddu'r Efengyl hon yn hollol annhebyg i ddywediadau a dammegion y tair Efengyl gyntaf.

Sut mae'r tair Efengyl gyntaf yn debyg i'w gilydd ?—Er fod gan bob un o'r tair ei nodweddion a'i safbwynt ei hun, etto, cytunant i'r fath raddau, fel maent wedi cael yr enw—"Efengylau Synoptaidd" (*Synoptic Gospels*). Dynoda y gair "Synoptaidd" eu bod yn cymmeryd yr un olwg gyffredinol ar fywyd ac addysgiadau Iesu. Mae yma debygolrwydd mewn mater ac iaith, yr un braslun cyffredinol yn cael ei ddylyn, a'r un amgylchiadau yn cael eu manylu. Dechreua ei fywyd cyhoeddus gyda'r bedydd yn yr Iorddonen, a'r temtiad yn yr anialwch. Mae carchariad Ioan yn ei alw allan i gymmeryd i fyny waith y Bedyddiwr, ac mae'r gwaith yn cael ei ranu yn naturiol rhwng Galilea, lle y dechreuodd, a Jerusalem, lle y terfynodd.

Yr Efengylau yn Ysgrythyrau ysprydoledig.—Yn raddol y daeth y pedair Efengyl i gael eu cydnabod fel ysgrifeniadau awdurdodol ; ond erbyn y flwyddyn 160, yr oedd pob hanes arall am Iesu Grist wedi ei wrthod gan yr Eglwys, a'r Efengylau presennol wedi cyrhaedd eu safle fel Ysgrythyrau ysprydoledig.

GOFYNIADAU I SAFON 3 A 4.

1. Adroddwch y testyn euraidd. 2. Nodwch bedwar o bethau mae Luc yn gosod pwys arnynt yn Luc i. 1—4. 3. Rhoddwch ddau reswm paham na ysgrifenwyd dim am Iesu Grist am flynyddoedd lawer ar ol ei ymadawiad. 4. Yn mha fodd y cadwyd ei hanes ar glawr yn ystod yr amser hwn ? 5. Yn mha drefn, o ran amser, yr ysgrifenwyd y pedair Efengyl ? 6. Rhoddwch rai rhesymau paham mae y bedwaredd Efengyl yn cael ei gosod ar wahan oddiwrth y tair arall. 7. Beth yw'r enw a roddir i'r tair Efengyl gyntaf ? 8. Beth mae'r enw yn olygu ? 9. Yn mha bethau mae y tair Efengyl hyn yn debyg i'w gilydd ? 10. Rhoddwch fraslun o fywyd cyhoeddus Iesu Grist yn ol y tair Efengyl gyntaf.

GOFYNIADAU I SAFON 4.

1. Sut oedd y genhadaeth gyntaf o Gristionogion yn dyfod i wybod am addysgiadau Iesu Grist ? 2. Sut ydych chwi yn cyfrif am y tebygolrwydd neillduol sydd rhwng yr Efengylau Synoptaidd ? 3 Sut mae Efengyl Marc yn dechreu ei hanes ? 4. Pa ychwanegiadau ydym yn gael yn Matthew a Luc ? 5. Sut mae Ioan yn dechreu ei Efengyl ? 6. Pa bersonau ydym ni yn gael yn unig yn y bedwaredd Efengyl ? 7. Yn mha le mae y rhan fwyaf y addysgiadau Iesu yn cael eu traethu yn ol Ioan ? 8. Pa sawl gwaith, yn

ol Ioan, mae'r Iesu yn bresennol yn y gwyliau blynyddol yn Jerusalem? Ioan ii. 13; v. 1; vii. 10: x. 22; xii. 1. 9. Pa sawl gwaith, yn ol yr Efengylau ereill, y cawn ni yr Iesu yn Jerusalem? 10. Enwch y gwyrthiau yn y bedwaredd Efengyl na chrybwyllir yn yr Efengylau ereill.

Gwers IV.—Rhagarweiniol.—Yr Efengyl yn ol Marc.

Y Testyn Euraidd.—"*Cymmer Marc, a dwg gyda thi; canys buddiol yw Efe i mi i'r weinidogaeth.*"—2 Tim. iv. 11.

Nodyn 3.—Ystyr diweddarach y gair Efengyl yw "newyddion da," ac yn y Testament Newydd, "newyddion da Iesu Grist," neu y deyrnas y daeth Efe i'w sefydlu. Daeth y gair yn naturiol wedi'n i gael ei ddefnyddio am y pedwar hanes sydd gyda ni o fywyd Iesu.

Nodyn 4.—Sylwer mai nid Efengyl Marc, na chan Marc, ydyw hi; ond, yn hytrach, yn ol Marc, ac yn golygu mai dyma'r hanes sydd gyda ni trwy dystiolaeth Marc. Mae'n bossibl, efallai yn debygol, mai nid Marc a'i hysgrifenodd yn ei ffurf bresennol, ond fod rhywun wedi defnyddio adgofion Marc fel y rhan bwysicaf o'r hanes.

Pwy oedd Marc.—Dywed traddodiad mai efe oedd y dyn ieuanc a grybwyllir yn Marc xiv. 51, 52. Iuddew oedd o enedigaeth, Col. iv. 10, 11, Gelwir ef yn Actau'r Apostolion yn *Ioan Marc*, Actau xii. 12—25; xv. 37. Mair oedd enw ei fam, ac yr oedd yn gyfaill i Petr, Actau xii. 12, a chanddi dy yn Jerusalem, lle, yn debygol, y ganwyd Marc. Yn ol 1 Petr v. 13, cafodd ei droi i fod yn Gristion gan Petr, yr hwn sydd yn ei alw, "fy mab I."

Marc yn gydymaith i Paul.—Yn Actau xii. 25, cawn ei fod wedi uno â Phaul a Barnabas ar ddechreuad eu teithiau cenadol. Yr oedd Marc yn fab i chwaer Barnabas, Col. iv. 10. Aeth gyda hwy o Antioch yn Syria hyd Perga yn Pamphylia, Actau xiii. 13. Yn debygol, o herwydd ei ddiffyg gwroldeb, bu yn achos ymrafael rhwng Paul a Barnabas, a darfu idddynt ymwahanu oddiwrth eu gilydd mewn canlyniad, Actau xv. 36—41. Er gwaethaf yr anffawd hwn, cawn fod Paul wedi ei gymmodi â Marc yn mhen amser ar ol hyny, ac maent gyda'u gilydd yn Rhufain, 2 Tim. iv. 11; Col. iv. 10; Philem. 24.

Ail bennod yn mywyd Marc.—Cawn ef yn Mabilon gyda Petr, 1 Petr v. 13, ac, yn ol tystiolaeth unfrydol yr Eglwys foreu, bu yn ysgrifenydd i Petr, ac yn y swydd hono, darfu iddo gofnodi yr adgofion sydd yn gwneyd i fyny y rhan fwyaf o Efengyl Marc. Dywed traddodiad mai yn Rhufain y darfu iddo ysgrifenu'r hanes a dderbyniodd oddiwrth ei dad yn y ffydd. O Rufain, clywir ei fod wedi myned i Alexandra, yn yr Aifft, lle y sylfaenodd Eglwys, ac y bu farw fel ei hesgob.

Sylfaen Efengyl Marc.—Fel y gwelir, mae wedi ei sylfaenu ar dystiolaeth Petr; ond gan fod Marc wedi bod mewn cyssylltiadau agos

â Phaul, nid yw yn rhyfedd fod argraff meddwl yr apostol mawr yn aros ar lawer o'i hymadroddion, fel y cawn weled wrth fyned yn mlaen. Tybir ei bod wedi ei hysgrifenu oddeutu'r flwyddyn 70.

Ar gyfer pwy.—Yn ddiamheu, ar gyfer y Cristionogion cenedlig. Mae hyny yn amlwg oddiwrth absenoldeb cyfeiriadau at yr Hen Destament. Hefyd, mae'n fanwl wrth ddesgrifio pethau ag y byddai y cenedloedd yn annghynnefin â hwy. Mae'n egluro *corban* (vii. 11), yn dweyd fod y pasc yn cael ei aberthu ar ddydd cyntaf Gwyl y Bara Croyw (xiv. 12); fod yr Iorddonen yn afon (i. 5); mae'n esponio Boanerges, "Abba a Talitha Cumi," &c.

Ei nodweddion.—1. Mwy o lawer yn cael ei wneyd o weithredoedd yr Iesu na'i eiriau. 2. Mae'r hanes wedi ei ysgrifenu mewn dull desgrifiadol iawn. Cawn, yn yr Efengyl, ddarluniau byw, fel o dan law y llygad-dyst mwyaf craffus. Galluoga ni, fel pe byddai i *weled* yr Iesu, ei *glywed*, i *sylweddoli* ei gydymdeimlad, i'w *adnabod* yn ddyn fel ni ein hunain, agored i deimladau a gwendidau dynol; yn *hoffi*, yn *tosturie*, yn *ocheneidio*, yn *cysgu*, yn *gorphwys*, ac a *chwant bwyd arno*, &c.

Blaenoriaeth Efengyl Marc.—Mae wedi dyfod, erbyn hyn, yn argyhoeddiad sefydlog gyda'r beirniaid mai yr Efengyl hon yw yr henaf, a'i bod yn cynnwys yr hanes fel mae wedi treiglo i lawr yn y ffurf buraf o lygad y ffynnon. Fel y byddem yn dysgwyl, ynte, mae darlun Marc o'r Iesu yn fwy dynol a syml nag un o'r rhai ereill. 'Does yma ddim son am ei enedigaeth wyrthiol, &c. Mae'n cymmeryd ei fedyddio gan Ioan fel rhywun arall, ac nid yw Ioan yn ei adnabod fel y Messiah. Mae yma derfynau y tu fewn i'r rhai y cyfyngir y gallu a'r wybodaeth ryfeddol oedd yn ei nodweddu, gweler Marc i. 34; vi. 5, 6; xiii. 32. Yn Matthew a Luc, dysgir ni ei fod yn ymwybodol o'i swydd fel y Messiah o'r dechreu. Yn Marc, ymddengys fod y syniad yn tyfu yn raddol, hyd nes iddo gyrhaedd ei addfedrwydd yn Cæsarea Philippi, pan y gofynodd i Petr, "Pwy mae dynion yn dweyd fy mod I?" ac yr atebodd Petr, "Ti yw y Crist," neu y Messiah, Marc viii. 27.

GOFYNIADAU I SAFON 3 A 4.

1. Adroddwch y testyn euraidd. 2. Rhoddwch ddau ystyr y gair "Efengyl." 3. Beth yw ystyr yr ymadrodd, "Yr Efengyl yn ol Marc?" 4. A ydych chwi yn sicr mai Marc a'i hysgrifenydd yn ei ffurf bresennol? 5. Dysgwch hanes Marc fel ei rhoddir yn Actau'r Apostolion. 6. Beth yw'r prawf mai dysgybl i Petr oedd ar y dechreu? 7. Sut y bu Marc yn achos i Paul a Barnabas ymrafaelio? 8. Dangoswch ei berthynas, wedi hyny, â Phaul ac â Phetr. 9. Oddiwrth bwy y cafodd Marc y defnyddiau i ysgrifenu yr Efengyl? 10. Yn mha le yr ysgrifenwyd hi, ac ar ba amser? 11. Yn mha le y dywed traddodiad iddo farw? 12. Enwch y tair dinas fawr y bu yn byw ynddynt.

GOFYNIADAU I SAFON 4.

1, Rhoddwch y rhesymau dros y dybiaeth mai ar gyfer y cenedloedd yr ysgrifenwyd Efengyl Marc. 2. Enwch ei phrif nodweddion. 3. Beth ydyw'r farn gyffredin yn awr gyda golwg ar ei rhagoriaeth? 4. Sut y dangoswch chwi fod darlun Marc o'r Iesu yn fwy dynol a syml nag un o'r rhai ereill.

W. J.

GOFYNIADAU I BLANT BACH YR YSGOL SUL AR HANES IESU GRIST.

1. Yn mha lyfr y ceir hanes Iesu Grist? 2. Ydyw gwahanol adroddwyr yr hanes yn cytuno yn y manylion? 3. Mab i bwy ddywedir ydoedd? 4. Pa le yr oeddynt yn byw? 5. Faint yn agos o amser sydd er pan anwyd Ef? 6. Beth oedd enw y lle y ganwyd Ef ynddo? 7. Yn mha wlad yr oedd y lle hwnw? 8. Beth oedd maint y wlad? 9. I ba sawl rhan y rhenid hi, a beth oedd eu henwau? 10. Mewn pa fath amgylchiadau y ganwyd Ef? 11. A oedd gan ei rieni ragor o blant nag Ef! 12. Beth wnaed iddo ar yr wythfed dydd o'i enedigaeth, a beth ar y 40fed? 13. Pa beth hynod yn ei hanes a gymmerodd le pan yr oedd yn ddeuddeg mlwydd oed? 14. Pa le bu yn byw y rhan fwyaf o'i oes? 15. Pa esiamplau a roddodd i blant yn nyddiau ei febyd? *(a)* Gostyngeiddrwydd, gweler Marc vi. 3. (*b*) Diwylliant meddyliol trwy wrandaw, sylwi, a darllen, Luc ii. 40. (*c*) Cynnydd mewn crefydd, Luc. ii. 49—52.

ADOLYGIAD.

PERLAU MOLIANT, *sef casgliad o Emynau, &c., at wasanaeth eglwysi Undodaidd Cymru. Y Tonau, &c., wedi eu dethol a'u trefnu gan Messrs. Eiddil Jones a W. Harris; yr Emynau gan y Parch. J. Hathren Davies, Merthyr Tydfil. Joseph Williams, Swyddfa'r "Tyst," &c.*, 1896.

Ni pherthyn i ni sylwi ar amgylchiadau cychwyniad y llyfr hwn. Mae ei ddechreuad, fel llawer o ddechreuadau ereill, wedi bod yn achlysur brwydrau ac ystormydd, ac yn parhau felly. Gellir dweyd fod gwyntoedd cryfion wedi bod yn siglo cryd y plentyn hwn, ac amser yn unig a ddengys a ydynt wedi bod yn foddion i wanychu ei gyfansoddiad, neu, o'r ochr arall, i gadarnhau ei fywiogrwydd, i rymusu eu gyhyrau, ac i wneyd ei ieuenctid gwrol yn broftwydoliaeth o faboed gweithgar a llwyddiannus. Gadawn y mater hwn, a chymmerwn bin yr adolygydd yn ein llaw. Y cwestiwn i hwnw

ydyw beth yw gwerth y llyfr; pa rai ydyw yr elfenau defnyddiol sydd ynddo i gyfarfod ag angenion ein heglwysi yn y dyddiau rhain.

Yn y lle cyntaf, mae'n lyfr o emynau a thonau, wedi ei addasu ar gyfer hen ac ieuainc, yn gystal a phlant ein Hysgolion Sul. Yn y modd hwn, cyferfydd â gofynion ein gwaith yn ei holl gyssylltiadau. Mae wedi bod yn amlwg, er ys blynyddau bellach, nad yw'r Undodiaid, er yn ychydig ac yn wahanedig, ddim allan o *gurrent* y bywyd cenedlaethol yn y mater o gerddoriaeth gyssegredig. Mae yr ysprydiaeth gerddorol Gymreig yn fyw yn ein rhengoedd ni. Yr oedd llyfr emynau, a dim ond emynau, mewn canlyniad, allan o'r cwestiwn. Llyfr emynau a thonau oedd y gri gyffredinol; a chredwn fod golygwyr diwyd a llafurus y casgliad hwn wedi sylweddoli, i raddau pell, yr *ideal* oedd yn chwareu o flaen ein dychymygion er ys blynyddoedd lawer bellach.

Gyda golwg ar yr emynau, yr oedd gan y golygwyr ddefnyddiau cyfoethog ar law, ac maent wedi gwneyd defnydd da o honynt, gyda'r canlyniad fod eu casgliad yn gyfuniad doeth o'r hen a'r newydd. Cyfarfuwn yma â'r hen *favourites* ag mae eu hadsain melodaidd yn ein clustiau er, pan yn blant, y dysgem sisial eu hiaith. Emynau cyssegredig Iolo Morganwg, Davis, Castellhywel, &c., ydynt wedi meithrin ein bywyd goreu yn ystod y ganrif sydd yn mron terfynu. Sylwn fod trysorau emynyddiaeth yr hen Iolo wedi myned dan archwiliad newydd a gofalus, ac mae ambell i "berl" nad yw yn adnabyddus i'r genedlaeth bresennol, wedi ei ddadorchuddio. Teimlwn ei bod yn ychwanegiad dirfawr at urddas, yn gystal ag at werth y llyfr, fod yna gynnifer o emynau gan ein prif feirdd Cymreig, megys Eben Fardd, Hiraethog, Emrys, Ceiriog, Gwalchmai, Watcyn Wyn, Dyfed, Elfed, &c. Mae y ffaith fod y rhai hyn yn gynnwysedig mewn casgliad Undodaidd yn arwydd ddymunol fod yma unoliaeth dwfn yn teyrnasu dan ein gwahaniaethau arwynebol, ac fod ein teimladau a'n hangenion crefyddol yr un, er cymmaint yr amrywia ein tybiau athronyddol ni am grefydd. Yr ydym wedi ein taro yn neillduol gan emynau Watcyn Wyn. Mae yma swyn a miwsig sydd yn deffroi ynom deimlad cyfatebol, ac mae'r geiriau yn dyfod adref i'n calon gyda rhyw acenion newydd o ysprydoliaeth fyw, ac nis gallwn lai nâ chrybwyll emyn 257 fel yn taro tant newydd yn ein barddoniaeth gyssegredig; ac ni synwn os bydd hwn yn un o'n hemynau dewisol yn y blynyddoedd sydd yn dyfod.

Yn mhlith y rhai newydd sydd yn y llyfr, gallaf enwi, fel emynau rhagorol, y rhai a ganlyn:—4, 5, 10, 17, 36, 40, 174, 176, 177, 193, 195, 200, 223, 229, 234, 248, 254, 280, 292, 295, 309, 411, 418, 419, 442, 461. Nid yw ond tegwch i ddweyd na fyddai y llyfr hwn ddim yn bossibl, a byddai wedi colli llawer o'i nodweddion gwerthfawr sydd yn perthyn iddo, oni bai fod "Emynau Mawl a Gweddi," ac "Emynau ac Odlau" y Parch. R. J. Jones, M.A., yn barhaus o flaen y Golygydd. Mae'n parhau yn wir o hyd—"Ereill a lafuriasant, a chwithau a aethoch i fewn i'w llafur hwynt." Llawenydd

genym ydyw crybwyll enw y Parch. Ivor Davies, Pentre, Rhondda, yr hwn, yn ei amrywiol gyfraniadau i'r llyfr, sydd wedi dangos ei fod yn feddiannol ar yspryd y peth byw sydd yn gwneyd barddoniaeth fyw. Gellir dweyd yr un peth hefyd am ereill, megys Ab Hefin, Caswallon, &c.

A chymmeryd golwg gyffredinol ar yr emynau, nis gellir dweyd eu bod yn agos gyfartal o ran teilyngdod. Mae y syniad yn croesi ein meddwl, ar adegau, mai swyddogaeth ambell i emyn yw llanw congl, a bod yn y gongl yn was bach i'r dôn sydd wedi ei gosod mewn awdurdod uwch ei ben. Peth arall hefyd. Mae'n wir am y casgliad hwn, fel pob casgliad arall ag y gwn I am dano, pe byddai barddoniaeth fyw yn cael ei hystyried yn hanfodol i wneyd emyn, byddai ambell i golofn ar dudalenau y llyfr yn wag. Ond addefwn yn rhwydd fod ystyriaethau ereill heblaw barddoniaeth yn penderfynu cyfaddasrwydd emynau at amcanion caniadaeth y cyssegr; ond wedi'r cwbl, mae y detholiad yn un rhagorol, ac yn glod i ddiwydrwydd a chwaeth farddonol y golygydd, sef y Parch. J. Hathren Davies.

Gyda golwg ar y tonau, cynnwysa y llyfr y rhan fwyaf o'r hen rai godidog hyny nas gellir gwneyd hebddynt mewn un gynnulleidfa bellach, a'r rhai sydd wedi eu hargraffu yn annileadwy ar lechau calon pob cerddor. Er hyny, drwg genym weled fod tonau mor rhagorol—tonau a chymmaint o'r hwyl Gymreig ynddynt, fel "Abertawe," "Denton's Green," &c., yn absenol. Ystyriwn hyn yn ddiffyg. Gwell fyddai genym ni gael y rhai hyn ar draul colli haner dwsen o'r rhai newydd sydd yn gwneyd eu hymddangosiad am y tro cyntaf. Credwn hefyd mai gwell fyddai "Lux Benigna" na "Newman" ar yr emyn "Di dyner wawl," &c., gan eu bod yn fwy deisyfiadol ac yn fwy cyfaddas i yspryd y geiriau. Nis gallwn lai nà chroesawu, gyda brwdfrydedd, y fath donau ag "Aberystwyth,' "Nantgan,' "Gogerddan,' "Myfanwy," "Eventide," "St. Aelred," "Ymgyssegriad," "Milton," a llawer ereill, yn hen a newydd, sydd wedi bod yn anwyl, ac a ddeuant yn anwyl yn ein cynnulleidfaoedd.

Un o orchwylion pwysicaf golygwyr casgliad o'r fath hwn yw gwneyd y cyplysiad priodol a naturiol rhwng y Dôn a'r Emyn. Credwn fod Messrs. Jones ac Harris wedi bod yn neillduol o hapus yn hyny. Mewn gair dyma un o nodweddion mwyaf gwerthfawr a gwahaniaethol y llyfr; ac mae'n amlwg trwy yr oll o hono eu bod wedi talu sylw manwl a gofalus i'r pwnc holl-bwysig hwn. Nid ydym yn petruso i ddweyd y bydd *Perlau Moliant* yn gyfrwng i ddwyn i fewn i Ganiadaeth y Cyssegr y tônau goreu o waith ein cerddorion goreu. Bydd yn gam mawr yn y blaen yn hanes ein caniadaeth fel Undodiaid, a gallwn ddweyd heb ofni cael ein amheu fod pob cerddor trwy ein holl eglwysi wedi bod yn dysgwyl ac yn hiraethu er ys blynyddau bellach, am weled llyfr o fath yr hwn sydd o'n blaen yn awr.

Sylwer ddarllenydd fod yma attodiad o Salm-dônau neu *Chants*. Ffurfia y rhai hyn ran o bob casgliad o'r fath hwn braidd yn y dyddiau presennol. Er mwyn amrywiaeth yn ein henwad, ac feallai er mwyn rhesymau dyfnach na hyny, cam priodol fyddai dwyn y rhai hyn i ymarferiad rheolaidd. Mae yn y llyfr yma—y corff o hono, gyda'r attodiadau yn cynnwys Salm-dônau ac Emynau a Thonau'r plant—ddefnydd i wneyd ein Cyfarfodydd Crefyddol yn llawer mwy *bright*, bywiog, ac attyniadol nag ydynt yn awr.

Gyda golwg ar allanolion y llyfr, mae o ran argraffiad a rhwymiad yn bobpeth ellir ei ddymuno. Fel y gellid dysgwyl nid yw yn rhydd oddiwrth wallau, ond nid ydynt yn llawer mor bell ag ydym ni wedi cael allan. Yr ydym wedi gwneyd aml i brawf ar y mynegai i'r Emynau ar ddechreu'r llyfr; ond hyd yn hyn, nid ydym wedi cael allan un gwall ynddo. Mae pob arwydd fod gofal neillduol wedi ei gymmeryd o'r prawf-leni. Wrth derfynu dymunwn i'r llyfr rwydd hynt i fod yn wasanaethgar yn ein plith i gadw'n fyw y tân sanctaidd ar ein hallorau, i'w enyn yn fflam lle mae'n mygu, ac fel anadl oddiwrth y pedwar gwynt i chwythu ar esgyrn meirw a'u gwneyd yn fyw byth mwy.

CARDI.

Mae celwydd mawr yn debyg i bysgodyn mawr ar dir sych; gall neidio ac ymrolio, a gwneuthur llawer iawn o *fuss*, ond ni all eich niweidio. Nid oes genych ond bod yn llonydd, a bydd farw o hono ei hun.—*Crabbe.*

Mae natur yn gwahardd bwyd yn amser afiechyd, trwy gymmeryd ymaith y chwant o hono. Caredigrwydd camsyniol yw gwasgi gormod ar ddyn claf i gymmeryd bwyd.—*Dr. Wilson.*

Manion ac Hanesion.

PRIODAS.—Medi 3, yn swyddfa y cofrestrydd, yn Nghaerdydd, priodwyd Mr. John Davies, yr hwn sydd ar y *Crimean Steamer*, â Miss Sarah Evans, ail ferch i Mr. Thomas Evans, Tynant, Ciliau Aeron. Rhwydd hynt i'r pâr ieuanc fyw yn hapus.

PRIODAS.—Medi 14, yn nghapel Penuel, Caerfyrddin, gan y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, yn cael ei gynnorthwyo gan y Parch. Ungoed Thomas, Caerfyrddin, y Parch. T. J. Jenkins, Gellionen, â Miss Annie Miriam Price, 25, Heol Awst, Caerfyrddin.

Y WIG.—Cynnaliwyd *picnic* blynyddol yr eglwys hon yn Southerndown, dydd Llun, Medi 13. Cafwyd y cerbydau i fyned tuag yno, a'r ymborth ar ol myned

yno, yn rhad. Treuliwyd y diwrnod yn hyfryd iawn.

GRAIG, LLANDYSSUL.—Nos Sul, Medi 20, darfu i'r Llyfr Emynau a Thonau Newydd gael ei ddefnyddio, am y tro cyntaf, yn y Graig. Gwnaeth y gweinidog, y Parch. Arthur Thomas, yr achlysur yn destyn pregeth ddyddorol iawn ar "Ganiadaeth y Cyssegr." Ar ol sylwi mai anaml iawn y cymmerai cyfnewidiadau o'r fath hwn le, ac, ar y cyfan, nad oeddynt i'w croesawu ond dan rym angenrheidrwydd, talodd deyrnged o barch neillduol o wresog i'r hen lyfr—llyfr a nododd gyfnod newydd yn ein hanes, ac a fu o gymmaint gwasanaeth am yn agos i ugain mlynedd, nid yn unig i feithrin ein bywyd ysprydol, ond hefyd i eangu ein cydymdeimladau crefyddol. Yr oedd sylwadau Mr. Thomas ar yr hen lyfr a'r lle pwysig oedd yn lanw yn ein hadgofion, yn nodedig o gyffrous, ac yn cyffwrdd â phob calon. Yna sylwodd ar ein profiadau amrywiol fel maent yn cael eu deongli mewn barddoniaeth a chaniadaeth gyssegredig, ac wrth fyned yn mlaen, rhoddodd *illustrations* pwrpasol o'r llyfr newydd, yn neillduol o'r rhanau hyny nad oeddynt yn anadnabyddus o'r blaen. Yr oedd cynnulleidfa luosog ac astud wedi dyfod yn nghyd, ac yr oedd y canu yn fywiog a chalonog.

Marwgofion.

Awst 6, ar ol cystudd byr iawn, yn 72 mlwydd oed, Rachel, gweddw y diweddar Thomas Jones, Glydwen, Llanwenog. Yr oedd fel arferol hyd yr hwyr, y 5ed cyfisol, pan ddechreuodd deimlo rhywbeth allan o le, ac aeth i'r gwely; ond erbyn toriad gwawr boreu dranoeth, yr oedd bywyd wedi myned yn ormod o faich, ac ehedodd ei hyspryd at yr Hwn a'i rhoes. Yr oedd ein chwaer yn aelod yn Nghapelygroes. Yr oedd wedi hanu o deulu ag oedd yn Undodiaid pur. Y dydd Llun canlynol, claddwyd ei rhan farwol yn mynwent Eglwys y plwyf, yn ymyl ei hanwyl briod, pan ddaeth tyrfa luosog i dalu iddi y gymmwynas olaf. Pregethwyd yn y ty gan y Parch. T. Thomas, ac wrth y drws, gan y Parch. E. E. Jenkins, Capelygroes. Gadawodd bump o blant i alaru ar ei hol—dwy ferch a thri mab. "Bu fyw a bu farw, a thyna'r cyfan, a'r oes yn gysgod oll o'i bron."

Medi 11, Mr. John Morgan, 24, Bell Court, Trecynon, Aberdare, yn 64 oed. Bu'n gystuddiol am ryw ddeg neu ddeuddeg mlynedd, y rhan fwyaf o'r amser yn gyfyngedig i'r cornel. Goddefodd ei gystudd hir gydag amynedd canmoladwy. Talasom ymweliad achlysurol ag ef drwy'r blynyddoedd hyny, ac ni chlywsom erioed air o rwgnach oddiwrtho am ei gyflwr; ond yr oedd bob amser yn barod i ymddyddan ar unrhyw a phob rhyw bwnc ond ei gletyd. Yr oedd yn ddyn defnyddiol yn ei gylch, glowr wrth ei alwedigaeth, a gwasanaethodd fel ysgrifenydd amryw gymdeithasau dyngarol am flynyddau. Yr oedd yn hen aelod yn yr H.D.C., ac ar ddydd ei angladd, cafodd gynhebrwng parchus a lluosog. Gwasanaethwyd gan y gweinidog, gyda chynnorthwy y Parch. Jenkin Thomas. Gadawodd ddau fab gydag amryw wyrion i alaru eu colled. Boed iddynt oll nawdd Duw a'i dangnefedd.

Medi 12, yn 11 mis oed, Daniel John, mab bychan Evàn a Mary Worthington, Blaenllechau. Claddwyd y dydd Mawrth canlynol, pryd y gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. Arthur Thomas.

Medi 13, yn 90 mlwydd oed, Hannah Davies, Aber, Llanwenog. Y Mercher canlynol, claddwyd ei rhan farwol yn medd ei hanwyl briod yn nghladdfa Capelybryn, a chyflawnwyd y gwasanaeth arferol i glywedigaeth luosog gan y gweinidog. Digonwyd hi â hir ddyddiau, a hyderwn iddi gael gweled iachawdwriaeth yr Arglwydd Gadawodd i alaru'n ddwys ar ei hol dri mab ac un ferch, heblaw nifer luosog o wyrion a pherthynasau ereill.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.